TGAU Gwneud-i-Gymru: *Prif Adroddiad Ymgynghoriad*

Mehefin 2023

Cynnwys

1. Rhagair 3
2. Cyflwyniad 6
3. Cyd-destun 8
4. Dull 13
5. Gofynion dylunio TGAU cyffredin 16
6. TGAU Cymraeg, TGAU Saesneg, TGAU Mathemateg a Rhifedd, a TGAU Y Gwyddorau. 37
7. Themâu cwmpasog a godwyd yn yr ymgynghoriad 44
8. Asesu effaith cymwysterau TGAU newydd 52
9. Y daith i 2025 a thu hwnt 54
10. Atodiad 61

1. Rhagair

1.1. Mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm) yn gofyn am ddull newydd, nid yn unig mewn cymwysterau ond ar draws llawer o'r dirwedd addysg. Gwyddom fod cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed yn chwarae rhan ganolog yn y ffordd y mae ysgolion yn datblygu eu cwricwla. Dyna pam mae gwireddi a galluogi manteision y Cwricwlwm wedi bod yn yrrwr allweddol i'n pednerfyniadau am ddiwygio cymwysterau.

1.2. Mae cymwysterau yn rhan bwysig o ystod ehangach o gyflawniadau a phrofiadau y mae dysgwyr yn eu hennill o'u haddysg orfodol. Maent yn gwasanaethu sawl pwrpas, nid yn unig yn cefnogi addysgu a dysgu cyn-16, ond hefyd yn helpu dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i fywyd, dysgu a gwaith. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ymgymryd â diwygio'n ofalus i gadw gwerth a hygrededd cymwysterau Cymru – yma, ar draws y DU ac yn fyd-eang.

1.3. Mae ein penderfyniadau ar ystod a dyluniad cymwysterau TGAU newydd wedi cael eu llywio gan yr egwyddorion allweddol yr ymgynghorwyd arnynt yn 2019 – yn bennaf y dylid sicrhau bod cymwysterau'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm fel y gallwn gael ystod gydlynol a chynhwysol o gymwysterau dwyieithog. Mae'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn gam cyntaf pwysig yn y gwaith o ddiwygio'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, a bydd pob elfen o hwnnw ar waith erbyn mis Medi 2027.

1.4. Mae newid bob amser yn anodd. Rydym yn gwybod na fydd pawb yn cytuno gyda'r holl benderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud – bydd rhai wedi dymuno gweld mwy o newid ac eraill yn dymuno gweld llai. Ein rôl fel rheoleiddiwr annibynnol yw defnyddio ein harbenigedd ac arbenigedd eraill i gyd-greu cynigion, cydbwyso safbwyntiau gwahanol a gwneud penderfyniadau sy'n addas ar gyfer y pwynt hwn yn nhaith y Cwricwlwm. Drwy gydol yr ymgynghoriad ac wrth ystyried ymatebion, rydym wedi bod yn ofalus i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ddeall effaith newid.

1.5. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir ar gyfer rhai pynciau. Cawsom y nifer uchaf o ymatebion i'r cynigion ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth, TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, TGAU Y Gwyddorau, a TGAU Mathemateg a Rhifedd. Fe wnaeth y cynigion hyn hefyd ddenu'r lefel uchaf o anghytundeb. Rydym wedi gwneud gwaith ac ymgysylltu ychwanegol sylweddol i edrych eto ar y cynnig sydd ar gael yn y pynciau hyn.

1.6. Wrth ddatblygu'r cynigion dylunio, a fydd bellach yn feini prawf cymeradwyo, rydym wedi bod yn ofalus i gael y cydbwysedd rhwng y cynnwys a'r asesiadau'n iawn. Bydd y cydbwysedd hwn yn amrywio'n naturiol ar draws pynciau, felly yn hytrach na gweithredu dyluniad cyffredin ar draws yr holl bynciau, rydym wedi defnyddio dull pwnc-wrth-bwnc gyda phob pwnc yn meddu ar ei feini prawf cymeradwyo ei hun. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn ar lefel pwnc i gyd wedi'u fframio o fewn set gyffredin o egwyddorion dylunio TGAU.

1.7. Gwyddom o ddiwygiadau blaenorol, wrth wneud diwygiadau ar raddfa fawr i gymwysterau, ei bod yn bwysig cael cyflymder y newid yn iawn. Yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm, bydd y rhan fwyaf o'r cymwysterau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno yn 2025, gyda nifer fach yn cael eu cyflwyno flwyddyn yn ddiweddarach yn 2026. Rydym wedi cytuno ar yr amserlen gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y dysgwyr cyntaf i brofi'r Cwricwlwm yn gallu dilyn cymwysterau sy'n cyd-fynd â'i uchelgeisiau.

1.8. Bydd y meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig bellach yn cael eu defnyddio gan y corff dyfarnu fel sail ar gyfer ei waith datblygu cymwysterau manwl, gyda manylebau cymwysterau yn cael eu cyhoeddi erbyn Medi 2024 i ganiatáu blwyddyn lawn o baratoi cyn eu haddysgu gyntaf ym mis Medi 2025.

1.9. Mae'r cymwysterau TGAU hynny sy'n cael eu cyflwyno yn 2026 yn bennaf ar gyfer pynciau newydd. Bydd yr amser ychwanegol yn rhoi cyfnod hirach i ysgolion ddatblygu'r capasiti sydd ei angen i'w cyflawni. Mae'r Cwricwlwm yn ddeinamig ac yn rhoi ymreolaeth i ysgolion addasu eu dull gweithredu dros amser, felly mae'n iawn bod yr ystod o gymwysterau sydd ar gael yn parhau i esblygu. Yn 2025 a 2026, yn ogystal â chymwysterau TGAU newydd, bydd ysgolion yn dal i allu dewis o'r ystod eang o gymwysterau cyn-16 sydd ar gael ar hyn o bryd. O 2027, drwy ein gwaith ar y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, byddwn yn symleiddio'r ystod o gymwysterau sydd ar gael, er mwyn ei wneud yn gliriach sut maent yn cefnogi'r Cwricwlwm ac i sicrhau bod yr holl gymwysterau ar gael yn ddwyieithog.

1.10. Mae cyflwyno cymwysterau newydd yn llwyddiannus yn gofyn am ddull system gyfan. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi ei hymrwymiad i nodi a llunio pa ganllawiau, cefnogaeth ac adnoddau fydd eu hangen fel y gall ysgolion baratoi ar gyfer y cymwysterau newydd hyn a'u cyflwyno'n hyderus er budd dysgwyr.

1.11. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso cymwysterau newydd wrth iddynt gael eu cyflwyno i wirio eu bod yn cyflawni eu buddion arfaethedig. Rydym hefyd am sicrhau bod cymwysterau'n parhau i gyd-fynd â'r Cwricwlwm wrth iddo esblygu. Gan adeiladu ar ein gwaith *Cymwys ar gyfer y dyfodol*, byddwn yn parhau i weithio'n agored ac ar y cyd i gyd-greu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y cymwysterau caiff eu cymryd gan ddysgwyr 14-16 oed.

1.12. Yn olaf, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith o gyd-greu ac ymgysylltu. Mae eich mewnbwn wedi bod yn hollbwysig wrth bennu'r llwybr ar gyfer cymwysterau'r dyfodol. Hoffem ddiolch hefyd i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad - mae eich mewnbwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein helpu i gwblhau ein penderfyniadau.

*Llofnod	*Llofnod
Philip Blaker	David B Jones
Prif Weithredwr	Cadeirydd

2. Cyflwyniad

2.1. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y gofynion dylunio (meini prawf cymeradwyo) ar gyfer cyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru. Ymgynghorwyd ar y rhain ar ddiwedd 2022. Bydd y cymwysterau newydd hyn yn helpu dysgwyr i gael y gorau o'u profiad o'r Cwricwlwm.

2.2. Fel rhan o'n prosiect *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*, rydym yn diwygio'r holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru.

2.3. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o:

- y cyd-destun a'r weledigaeth ar gyfer y diwygiadau hyn
- sut rydym wedi gweithio ag eraill i gyd-greu'r gofynion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd yn seiliedig ar ymatebion i'r ymgynghoriad
- yr egwyddorion dylunio cyffredin sy'n berthnasol i bob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru a sut maent yn berthnasol ar draws gwahanol bynciau
- newidiadau i'r ystod o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a fydd ar gael mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Rhifedd, a'r Gwyddorau
- y prif themâu a godwyd drwy'r ymgynghoriad a sut rydym wedi mynd i'r afael â'r rhain
- sut rydym wedi asesu effaith ein penderfyniadau
- beth sy'n digwydd nesaf

2.4. Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU rydym yn eu cyhoeddi yn cynrychioli penllanw 18 mis o gydweithio, ymgysylltu ac ymgynghori helaeth.

2.5. Ym mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022, yn dilyn ymgynghoriad cynharach, fe wnaethom gyhoeddi'r ystod o bynciau TGAU a fydd ar gael i gefnogi'r Cwricwlwm. Yna, buom yn gweithio'n agos gydag ystod eang o gyfranwyr i gyd-greu cynigion ar gyfer sut y gellid dylunio'r cymwysterau newydd hyn.

2.6. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hyn rhwng 4 Hydref a 14 Rhagfyr 2022. Yn yr adroddiad hwn ac ar draws cyfress o ddogfennau ategol, rydym yn disgrifio'r pwyntiau a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac yn esbonio sut y maent wedi llunio'r gofynion dylunio a nodir yn y meini prawf cymeradwyo. Lle roeddem yn teimlo bod yr ymatebion i'r

ymgynghoriad yn mynnu hynny, rydym wedi ailedrych ar rai o'n penderfyniadau cynharach ar yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael.

2.7. Rydym wedi creu dau fath o feini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd. Mae'r gofynion dylunio cyffredin ar gyfer pob cymhwyster TGAU newydd wedi'u nodi mewn un ddogfen o'r enw *Meini Prawf Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru*. Mae'r gofynion dylunio penodol ar gyfer pob cymhwyster TGAU unigol wedi'u nodi yn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc. Rydym wedi cyhoeddi 28 o feini prawf cymeradwyo lefel pwnc.

2.8. Mae meini prawf cymeradwyo yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddylunio eu cymwysterau. Cyn cymeradwyo cymhwyster arfaethedig, byddwn yn gwirio'n ofalus ei fod yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo.

2.9. Mae'r set gyflawn o feini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ar gael ar ein gwefan.

2.10. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau pwnc-benodol manwl sy'n egluro ein penderfyniadau ar ddyluniad pynciau TGAU unigol ynghyd â chrynodeb o ymatebion i bob cynnig dylunio.

2.11. Rydym hefyd wedi cynhyrchu Adroddiad sy'n Addas i Bobl Ifanc sy'n crynhoi ac yn egluro'r penderfyniadau allweddol yr ydym wedi'u gwneud ar draws pynciau.

2.12. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau manylach yn ymwneud â:

- methodoleg a dull
- dadansoddiad thematig o ymatebion i'r ymgynghoriad
- asesiad effaith integredig
- dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad a dilyniant ar gyfer cymwysterau gwyddoniaeth ar lefel TGAU ac UG

3. Cyd-destun

Cwricwlwm i Gymru

3.1. Dechreuwyd addysgu'r Cwricwlwm newydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon ac o fis Medi 2023, bydd pob ysgol a lleoliad addysg ledled y wlad yn ei ddarparu i bob dysgwr ym Mlwyddyn 8 ac is. Mae hyn yn golygu bod yr hyn y mae dysgwyr 3 i 16 oed yn ei astudio a sut maen nhw'n cael eu haddysgu wedi newid yn sylweddol.

3.2. Mae pob ysgol yng Nghymru bellach yn gyfrifol am gynllunio ei chwricwlwm ei hun yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canllawiau hyn yn gofyn i ddysgwyr brofi cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adlewyrchu chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' (meysydd):

- y celfyddydau mynegiannol
- iechyd a lles
- y dyniaethau
- ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- mathemateg a rhifedd
- gwyddoniaeth a thechnoleg

3.3. Gyda'r cwricwlwm yn newid, bydd angen i gymwysterau – gan ddechrau gyda TGAU – newid hefyd i adlewyrchu beth mae dysgwyr yn ei ddysgu a sut mae dysgwyr yn cael eu haddysgu. Bydd y don gyntaf o gymwysterau TGAU newydd yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, pan fydd y garfan gyntaf o ddysgwyr i brofi'r Cwricwlwm yn cyrraedd Blwyddyn 10.

3.4. Mae'n bwysig nodi yma, er y bydd cymwysterau'n dylanwadu ar sut mae ysgolion yn cynllunio ac yn addysgu eu Cwricwla eu hunain, nid ydynt yn disodli gofynion y Cwricwlwm. Rydym wedi canolbwyntio ar gytuno ar gynnwys cymwysterau a gofynion asesu a fydd yn cefnogi ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm a diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

3.5. Nod pedwar diben y Cwricwlwm yw cefnogi dysgwyr i ddod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd

- yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

3.6. Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom ofyn am farn ynghylch a fyddai'r cynigion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd yn helpu dysgwyr i wireddu dibenion y Cwricwlwm.

Cymwys ar gyfer y dyfodol

3.7. Mae *Cymwys ar gyfer y dyfodol* yn disgrifio'r gwaith rydym yn ei wneud i lunio cymwysterau newydd sy'n cefnogi'r Cwricwlwm ac sy'n diwallu anghenion dysgwyr y dyfodol.

3.8. Ein gweledigaeth yw i ddysgwyr yng Nghymru ddilyn cymwysterau sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Cymwysterau sy'n:

- ennyn hyder y cyhoedd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang
- sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog i ysgolion a dysgwyr
- gwneud y mwyaf o dechnoleg ddigidol
- y gellir eu cyflwyno mewn ffordd gynaliadwy a reolir

3.9. Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm, mae Llywodraeth Cymru yn diwygio ei threfniadau ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion. Bydd perfformiad ysgolion yn cael ei werthuso yn seiliedig ar ystod eang a chytbwys o dystiolaeth, gyda llai o bwyslais ar ganlyniadau cymwysterau.

3.10. Mae lleihau'r ddibyniaeth ar ganlyniadau cymwysterau fel y prif fodd o werthuso perfformiad ysgolion yn creu mwy o gyfle i gynnwys gwahanol gymysgedd o ddulliau asesu, gyda llai o ffocws ar arholiadau diwedd cwrs.

3.11. Yn dilyn ein hail ymgynghoriad *Cymwys ar gyfer y dyfodol*, eglurwyd sut y bydd ein penderfyniadau ar yr ystod o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn y dyfodol yn cefnogi'r Cwricwlwm, gan nodi eu bod yn:

- cynnwys cymysgedd priodol o gymwysterau ym mhob maes o'r cwricwlwm i adlewyrchu ehangder a chydbwysedd cwricwlwm ysgol
- creu lle i ysgolion gynnig, a dysgwyr i astudio, cymysgedd eang a chytbwys o bynciau
- rhoi hyblygrwydd i ysgolion gynnig dewisiadau i'w dysgwyr a fydd yn caniatáu iddynt arbenigo mewn gwahanol bynciau, ennill ehangder a

dyfnder dysgu a gwneud cysylltiadau ar draws gwahanol feysydd o'r cwricwlwm
- cefnogi dilyniant llwyddiannus i lwybrau ôl-16, gan gynnwys astudiaeth UG a Safon Uwch
- arwain at gymysgedd hydrin o asesiadau gyda llai o bwyslais yn gyffredinol ar arholiadau diwedd cwrs

Gweledigaeth ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd

3.12. Trwy ein dull o gyd-greu, rydym wedi gweithio gydag ystod eang o gyfranwyr i gytuno ar weledigaeth i helpu i lunio gofynion ar gyfer sut y bydd y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn cael eu dylunio.

3.13. Ar y cyd, cytunwyd y dylai cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru wneud y canlynol:

- helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm
- cynnig hyblygrwydd a dewis i ysgolion ddiwallu anghenion eu cwricwlwm a'u dysgwyr
- adlewyrchu egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm
- galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i ddysgu a hyfforddi ôl-16
- darparu dewis teg a hollol ddwyieithog o gymwysterau a llwybrau
- cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol
- hyrwyddo profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol
- annog dysgwyr i wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws eu dysgu
- cynnwys asesiadau perthnasol, dilys a deniadol
- adlewyrchu amrywiaeth dysgwyr a'r byd y maent yn byw ynddo
- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol

3.14. Mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu deialog barhaus a chydweithredol â rhanddeiliaid am y gwahanol ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried a'u cloriannu wrth ddylunio cymwysterau.

3.15. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, fe wnaethom archwilio'r gwahanol bwrpasau y mae'n rhaid i gymwysterau TGAU eu cyflawni - llawer ohonynt hefyd yn berthnasol i gymwysterau eraill a gymerir gan ddysgwyr 14 i 16 oed.

3.16. Wrth ddatblygu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd, fe wnaethom edrych ar bedair agwedd allweddol ar ddylunio cymwysterau - **hydrinedd**, **ymgysylltiad**, **dibynadwyedd** a **dilysrwydd** (am ddiffiniad o'r termau hyn gweler Adran J o'n Hamodau Cydnabod Safonol).

3.17. Er mwyn i ddyluniad cymhwyster fod yn addas i'r diben, rhaid iddo gydbwyso'n briodol â'r pedair agwedd, sef hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd. Rhaid bod ganddo gynnwys ac asesiadau sy'n **hydrin** ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster ac ar gyfer yr ysgolion sy'n ei gyflwyno. Rhaid i'r cynnwys a'r asesiadau fod yn **ymgysylltiol**, neu'n ddeniadol, i ddysgwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried perthnasedd y cynnwys i ddysgwyr ac i'w profiad o baratoi ar gyfer asesiadau a'u sefyll.

3.18. Rhaid i'r asesiad o'r cymwysterau arwain at ganlyniadau sy'n ddigon **dibynadwy** i ddysgwyr a'r rhai sy'n dibynnu ar ganlyniadau cymwysterau i ymddiried eu bod yn fesur teg o gyrhaeddiad.

3.19. Er mwyn bod yn fesur **dilys** o gyrhaeddiad, rhaid i asesiadau ganolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'r pwnc. Er enghraifft, er mwyn i gymhwyster cerddoriaeth fod yn ddilys, dylai asesu sgiliau perfformio, cyfansoddi a gwerthfawrogi gwahanol fathau o gerddoriaeth, yn ogystal â gallu'r dysgwyr i ddefnyddio cysyniadau cerddorol a therminoleg yn briodol.

3.20. I ddysgwyr, mae cymwysterau'n chwarae rhan hollbwysig wrth eu galluogi a'u cefnogi i symud ymlaen i astudiaethau ôl-16 a chyflogaeth. Er mwyn i gyflawniadau dysgwyr gael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod, rhaid i ganlyniadau cymwysterau ennyn hyder y cyhoedd, felly rhaid iddynt gael eu gweld yn fesur cywir, teg a dibynadwy o gyrhaeddiad. Mae ein gofynion ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd yn ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i'r corff dyfarnu sicrhau bod y cymwysterau hyn yn cael eu dylunio a'u cyflwyno i sicrhau y byddant yn arwain at raddau sy'n rhoi mesur dibynadwy, teg a chywir o gyrhaeddiad dysgwyr, yn seiliedig ar eu gwaith eu hunain.

3.21. Mae cymwysterau hefyd yn chwarae rhan wrth lunio'r dewisiadau y mae ysgolion a darparwyr eraill yn eu cynnig i ddysgwyr. Gall sut mae cymwysterau'n cael eu dylunio a'u hasesu gael dylanwad mawr ar sut mae pynciau yn cael eu haddysgu a sut mae dysgwyr yn eu profi - rydym weithiau'n cyfeirio at hyn fel 'ôl-effaith' ('*washback effect*').

3.22. Wrth osod gweledigaeth, trafodwyd sut y dylai'r gofynion o ran cynnwys ac asesu ar gyfer pynciau unigol sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cymwysterau TGAU wedi'u dylunio i alluogi ac annog profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol. Wrth wneud hynny, roeddem yn cydnabod nad cymwysterau yw'r unig ffactor sy'n dylanwadu ar yr hyn y bydd dysgwyr yn ei ddysgu a sut y caiff dysgwyr eu dysgu. Yn y pen draw, mater i bob ysgol yw cynllunio a chyflwyno ei chwricwlwm unigryw ei hun yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm.

3.23. Buom yn trafod yr effaith y gall dylunio cymwysterau ei chael ar ddysgwyr, nid yn unig o ran beth a sut maent yn dysgu, ond hefyd ar eu lles. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn teimlo y byddant yn cael eu hasesu'n deg ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu a'r hyn y gallant ei wneud. O'n gwaith gyda dysgwyr, gwyddom mai un ffordd o gyflawni hyn yw i bob cymhwyster gynnwys cymysgedd o wahanol ddulliau asesu lle bynnag y bo modd.

3.24. Mae effaith dylunio cymwysterau ar lwyth gwaith athrawon ac amser addysgu yn ffactor allweddol arall i'w gofio. Bydd nifer y tasgau asesu gwahanol a sut y cânt eu gosod a'u marcio yn effeithio ar yr hyn y mae'n rhaid i athrawon ei wneud a phryd, a faint o amser sydd ganddynt i dreulio yn addysgu yn hytrach na pharatoi ar gyfer gweithgareddau asesu.

3.25. Rydym wedi cyhoeddi papur gwaith a ddefnyddiwyd gennym gyda rhanddeiliaid i roi golwg fanylach ar y gwahanol ystyriaethau a drafodwyd gennym wrth gyd-greu ein gweledigaeth ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

4. Dull

4.1. Ddiwedd y llynedd, fe wnaethom ymgynghori ar y pwrpas, nodau, cynnwys ac asesiadau arfaethedig ar gyfer 26 cymhwyster TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig. Ein nod oedd casglu adborth i'w rannu gyda'n grwpiau cyd-greu a'n helpu i gwblhau'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

4.2. Mae cyd-greu wedi bod yn ganolog i'r ffordd yr ydym wedi datblygu, profi a chwblhau'r gofynion dylunio ar gyfer y cymwysterau newydd hyn. O'r dechrau i'r diwedd, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â chymaint o gyfranwyr gwahanol â phosibl.

4.3. Er mwyn datblygu'r cynigion, fe wnaethom greu mwy na 30 o weithgorau lefel pwnc a fforymau rhanddeiliaid ehangach. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys ystod eang o gyfranwyr, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, darlithwyr, arholwyr, rhieni, cyflogwyr, cyrff dysgedig a phroffesiynol, grwpiau diddordeb pwnc, prifysgolion a cholegau addysg bellach.

4.4. Gyda dysgwyr yn ganolog i'r hyn a wnawn, mae ein grŵp cynghori dysgwyr wedi parhau i herio a chefnogi ein gwaith. Yn gynnar yn 2021, fe wnaethom gyflawni ymarfer ymgysylltu â dysgwyr gan gyrraedd dros 800 o ddysgwyr drwy grwpiau ffocws ledled y wlad. Cawsom dros 500 o ymatebion i'r arolwg hefyd. Fe wnaeth canfyddiadau'r gwaith hwn lunio'n uniongyrchol y gofynion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd.

4.5. Fe wnaethom hefyd sefydlu Grŵp Cynghori Academaidd, gan gynnwys arbenigwyr cwricwlwm ac asesu rhyngwladol, i'n helpu i ystyried goblygiadau agweddau penodol ar ddiwygio cymwysterau.

4.6. Fe wnaethom gynnal yr ymgynghoriad ar-lein ar ein platfform 'Dweud eich dweud'. Fe wnaethom grwpio'r cynigion yn ôl meysydd o'r Cwricwlwm. Roedd gan bob pwnc ei dudalen ei hun, yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r cynnig gyda dolenni i esboniad manylach o'r cynigion yn ogystal â fersiwn 'addas ar gyfer pobl ifanc'.

4.7. Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwnaethom strwythuro'r cynigion ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd (a chymwysterau cysylltiedig) ar draws chwe maes y Cwricwlwm.

Tabl 1: Cynigion yr Ymgynghoriad

Y Celfyddydau Mynegiannol	**Y Dyniaethau**	**Iechyd a Lles**
• TGAU Celf a Dylunio • TGAU Cerddoriaeth • TGAU Dawns • TGAU Drama • TGAU Ffilm a'r Cyfryngau Digidol[1]	• TGAU Astudiaethau Crefyddol • TGAU Astudiaethau Cymdeithasol • TGAU Busnes • TGAU Daearyddiaeth • TGAU Hanes	• TGAU Bwyd a Maeth • TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant • TGAU Iechyd ac Addysg Gorfforol[2]
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	**Mathemateg a Rhifedd**	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**[3]
• TGAU Cymraeg Craidd • TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg • TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg • TGAU Iaith Arwyddion Prydain • TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg • Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol	• TGAU Mathemateg a Rhifedd • Lefel 1 Rhif, Mesur a Data • Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol	• TGAU Cyfrifiadureg • TGAU Dylunio a Thechnoleg • TGAU Peirianneg • TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)

4.8. Roedd ymatebwyr yr ymgynghoriad yn gallu ateb arolwg ar wahân ar gyfer pob cynnig cymhwyster. Gallent hefyd gwblhau arolwg cyffredinol am y cynigion yn eu cyfanrwydd ac effeithiau posibl y cynigion. Gallai ymatebwyr ddewis faint a pha arolygon i'w cwblhau.

[1] Ers yr ymgynghoriad, mae enw'r cymhwyster hwn wedi newid i TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol.

[2] Ers yr ymgynghoriad, mae enw'r cymhwyster hwn wedi newid i TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd.

[3] Trwy ein gwaith o gyd-greu, daethom i'r casgliad na fyddai angen diwygio dau gymhwyster TGAU a grëwyd yn ddiweddar yn y maes hwn (TGAU Amgylchedd Adeiledig a TGAU Technoleg Ddigidol) er mwyn iddyn allu cefnogi'r Cwricwlwm.

4.9. Er mwyn sicrhau ystod mor eang â phosibl o ymatebion ac i helpu ymatebwyr i esbonio eu barn, fe wnaethom gyflwyno ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o'r cynigion a'u hesbonio.

4.10. Ar draws y 27 arolwg ar-lein, cawsom 2,101 o ymatebion. Ymatebodd cyfanswm o 1,722 o ddefnyddwyr unigol i un neu fwy o arolygon. Cawsom hefyd 26 o ymatebion mewn fformat arall, a chyflwynwyd llawer ohonynt ar ran sefydliadau sy'n gweithio yn y sector addysg yng Nghymru, neu sydd â diddordeb ynddynt.

4.11. Cawsom y nifer uchaf o ymatebion i'r cynigion ar gyfer TGAU integredig newydd mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Rhifedd, a'r Gwyddorau. Cynhyrchodd y cynigion hyn y lefelau uchaf o anghytundeb hefyd. Yn dilyn hynny, fe wnaethom archwilio gwahanol opsiynau ar gyfer diwygio'r pynciau hyn. Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith ar y pynciau hyn isod.

4.12. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi'u lleoli yng Nghymru, a chawsom ymatebion gan gyfranogwyr ym mhob ardal awdurdod lleol yn y wlad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn weithwyr addysg proffesiynol (76.8%) ac yna rhieni a gofalwyr (11.7%) a dysgwyr (6.1%). Cawsom ymatebion hefyd gan awdurdodau lleol, consortia addysg, cyflogwyr a chyrff cynrychioliadol, undebau athrawon, cyrff dyfarnu ac aelodau'r cyhoedd.

4.13. Wrth ystyried yr adborth, mae'n bwysig cofio bod ymatebion i ymgynghoriad bob amser yn wirfoddol ac yn hunanddewisol. Efallai y bydd gan y rhai sy'n ymateb ddiddordeb penodol ym mhwnc yr ymgynghoriad. Ni ellir defnyddio ymgynghoriad i fesur lefelau cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer cynnig, a dylem fod yn ofalus i beidio â chyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

4.14. Fe wnaethom ddadansoddi pob ymateb i'r ymgynghoriad yn systematig a rhannu'r canfyddiadau â'r grwpiau cyd-greu a oedd wedi helpu i ddatblygu'r cynigion. Fe wnaeth y grwpiau hyn ein helpu i fireinio'r cynigion a datblygu'r gofynion dylunio terfynol (meini prawf cymeradwyo). Er mwyn llywio'r gwaith hwn ymhellach, fe wnaethom ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ein Grŵp Cynghori i Ddysgwyr, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid *Cymwys ar gyfer y dyfodol*, colegau addysg bellach a phrifysgolion yng Nghymru a Lloegr, ein grŵp rhanddeiliaid Cymraeg, a chymdeithasau dysgedig ar gyfer y gwyddorau.

4.15. Gallwch ddarllen esboniad mwy manwl o'n methodoleg a'n dull gweithredu yn yr atodiad ategol ar wahân.

5. Gofynion dylunio TGAU cyffredin

5.1. Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn nodi set gydlynol o ofynion ar gyfer sut y mae'n rhaid dylunio'r cymwysterau hyn. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd ac amrywiaeth ar draws gwahanol bynciau.

5.2. Er mwyn darparu cydlyniaeth ar draws y gyfres lawn o gymwysterau TGAU, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar nodweddion ac egwyddorion dylunio cyffredin sy'n sail i'r meini prawf cymeradwyo ar lefel pwnc.

5.3. Yn yr adran hon, rydym yn esbonio'r prif ystyriaethau sydd wedi llunio'r gofynion a nodir yn y meini prawf cymeradwyo mewn perthynas â:

- phwrpas
- lefel
- maint
- graddio
- cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru
- strwythur cymwysterau
- cydbwysedd y dulliau asesu
- argaeledd ac amseriad asesiadau
- dylunio asesu
- defnyddio technoleg ddigidol wrth asesu
- safonau a chymaroldeb

Pwrpas

5.4. Gofynnodd ein hymgynghoriad am farn ar set arfaethedig o bwrpasau cyffredin a ddylai fod yn berthnasol i bob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru newydd. Datblygwyd y dibenion hyn fel rhan o'n gwaith gyda rhanddeiliaid i gyd-greu'r gofynion dylunio arfaethedig ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd.

5.5. Roedd y rhai a ymatebodd yn gyffredinol yn cytuno â'r pwrpas arfaethedig. Ond roedd barn yr ymatebwyr yn fwy cymysg o ran faint y byddai'r cynigion dylunio yn gallu cyflawni'r pwrpasai arfaethedig hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd lefelau cytundeb yn cyfateb i farn ymatebwyr ar rinweddau tasgau asesu di-arholiad wrth asesu cymwysterau.

5.6. O ystyried y cytundeb eang hwn, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r pwrpasau cyffredin hyn o fewn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar Lefel Cymhwyster TGAU*. Mae'r gofynion hyn yn nodi bod yn rhaid i bob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru wneud y canlynol:

- fod wedi'i ddylunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae dysgwyr wedi'i datblygu trwy eu haddysg rhwng 3-14 oed
- cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau eang a heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudiaeth ôl-16 a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad dysgwyr mewn pwnc sy'n tynnu sylw at yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

5.7. Mae'n rhaid i bob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru newydd gael ei ddylunio i gyflawni'r pwrpasau hyn. Rhaid i gymwysterau TGAU mewn pynciau penodol hefyd gael eu dylunio i gyflawni'r pwrpas a'r nodau penodol fel y nodir yn y meini prawf cymeradwyo ar lefel pwnc.

Lefel

5.8. Rhaid i bob cymhwyster TGAU gael ei ddylunio i asesu cyflawniad dysgwyr ar draws Lefel 1 a Lefel 2 o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW).

5.9. Mae'r gofyniad hwn yn cael ei nodi o fewn y Meini Prawf Cymeradwyo ar Lefel Cymhwyster TGAU, sy'n datgan bod yn rhaid i bob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru 'fod â lefel debyg o her i gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 eraill ledled y DU'.

5.10. Mae hyn yn golygu y bydd gan gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru gynnwys ac asesiadau sydd yr un mor heriol â'r cymwysterau TGAU presennol ac sy'n debyg o ran her i gymwysterau tebyg a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr mewn rhannau eraill o'r DU. Mae hwn yn ofyniad allweddol gan y bydd yn helpu i sicrhau y bydd cyflawniadau'r dysgwyr hynny sy'n sefyll cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn parhau i gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi yn yr un modd â dysgwyr sy'n sefyll y cymwysterau TGAU presennol.

Maint

5.11. Rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i bob cymhwyster TGAU gael ei ddylunio i'w astudio'n bennaf gan ddysgwyr 14-16 oed ar draws cwrs astudio dwy flynedd. Hynny yw, gan ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Dyna pam rydym yn canolbwyntio ar sicrhau y bydd y cymwysterau TGAU newydd hyn yn barod i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, pan fydd y dysgwyr cyntaf i brofi'r Cwricwlwm newydd yn dechrau Blwyddyn 10.

5.12. Roedd y cynigion dylunio TGAU yr ymgynghorwyd arnynt yn nodi bod yn rhaid i bob cymhwyster TGAU unigol fod â chynnwys y gellir ei gyflawni o fewn ystod benodol o oriau dysgu dan arweiniad.

5.13. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol feintiau TGAU arfaethedig y gwnaethom ymgynghori arnynt.

Maint y cymhwyster TGAU arfaethedig	**Oriau dysgu dan arweiniad arfaethedig**
TGAU Gradd Unigol - e.e. Celf a Dylunio	120 i 140
Pynciau a gynigir fel rhai sy'n cyfateb o ran maint i 1.5 TGAU: • TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg • TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg • TGAU Mathemateg a Rhifedd	180 i 200
TGAU Dwyradd - e.e. Y Gwyddorau	240 i 280

5.14. Fel yr esboniwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rydym wedi gwneud newidiadau i faint arfaethedig TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, a TGAU Mathemateg a Rhifedd.

5.15. Mae hyn yn golygu mai dim ond dau fath o gymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru fydd ar gael, fel y disgrifir yn y tabl isod.

Maint y TGAU	Oriau dysgu dan arweiniad
TGAU gradd unigol - e.e. Celf a Dylunio, Hanes, Bwyd a Maetheg.	120 i 140
Y cymwysterau TGAU dwyradd fydd ar gael fydd: • Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg • Iaith a Llenyddiaeth Saesneg • Mathemateg a Rhifedd • Y Gwyddorau	240 i 280

5.16. I fod yn glir, **ni fydd** y diwygiadau hyn yn arwain at gymwysterau TGAU sy'n cyfateb o ran maint i 1.5 TGAU.

5.17. Yn hanesyddol, mae rhai pynciau TGAU wedi bod ar gael fel cymwysterau cwrs byr, sy'n cyfateb yn fras o ran maint i hanner cymhwyster TGAU. Rydym wedi penderfynu **na fydd** y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ar gael fel cymwysterau cwrs byr.

5.18. Er mwyn rhoi'r penderfyniadau hyn mewn cyd-destun, mae'n werth esbonio'n fyr pam ein bod yn defnyddio oriau dysgu dan arweiniad (*Guided Learning Hours: GLH*) i ddisgrifio maint cymwysterau, a sut mae GLH yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol. Bwriedir i GLH fod yn ddangosydd bras o faint o gynnwys sydd wedi'i gwmpasu mewn cymhwyster. Maent yn disgrifio nifer yr oriau o ddysgu dan arweiniad lle gellir cyflwyno cwrs dysgu sy'n arwain at gymhwyster. Nid yw GLH yn disgrifio'r 'gwerth' y dylid ei roi ar radd a enillwyd gan ddysgwr sy'n cwblhau'r cymhwyster.

5.19. Wrth ddatblygu a chymeradwyo cymwysterau, rydym ni a'r cyrff dyfarnu yn defnyddio GLH i benderfynu a yw ehangder a dyfnder y cynnwys y bydd dysgwyr yn cael ei asesu arno yn briodol ac yn hydrin o fewn y GLH a fwriedir.

5.20. Mae GLH hefyd yn helpu'r rhai sy'n dibynnu ar ganlyniadau cymwysterau i wneud penderfyniadau gwybodus am y dysgu y mae pob cymhwyster yn ei gynrychioli. Er enghraifft, wrth benderfynu a all dysgwr gael mynediad at lwybr dysgu ôl-16.

5.21. Gall ysgolion ddefnyddio GLH cymwysterau wrth ddylunio eu hopsiynau a'u hamserlenni. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r GLH sy'n gysylltiedig â chymhwyster mewn unrhyw ffordd yn rhwymo ysgolion. Ysgolion

sy'n gyfrifol am benderfynu faint o amser addysgu sydd ei angen i baratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer eu hasesiadau. Yn ymarferol, rydym yn gwybod o ymgysylltu ag ysgolion bod faint o amser addysgu y maent yn ei ddyrannu i ddarparu gwahanol gymwysterau yn amrywio ar draws ysgolion, pynciau a grwpiau o ddysgwyr, yn dibynnu ar lawer o ystyriaethau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfanswm nifer y cymwysterau sy'n cael eu cymryd gan ddysgwr ac – yn y system bresennol – a yw dysgwyr yn dechrau ar gyrsiau TGAU pan fyddant ym Mlwyddyn 9.

5.22. O ganlyniad i'n penderfyniad i bennu maint y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn ein meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig, a'r gofyn i gorff dyfarnu ddangos y gellir cyflwyno'r cymhwyster yn rhesymol o fewn y GLH penodedig, byddwn yn datgymhwyso ein rheolau presennol[4] fel y nodir yn ein Hamodau Cydnabod Safonol – y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru – ar gyfer y cymwysterau hyn.

Graddio

5.23. Bydd pob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru yn cael ei raddio o *A** i *G*.

5.24. Ar gyfer cymwysterau TGAU dyfarniad-sengl, bydd dysgwyr yn ennill un radd.

5.25. Ar gyfer cymwysterau TGAU dyfarniad-dwbl, bydd dysgwyr yn derbyn dwy radd. Bydd hyn yn dangos bod y cymwysterau hyn tua dwywaith maint cymwysterau TGAU nodweddiadol. Byddwn yn cadarnhau'r gofynion manwl ar gyfer sut y bydd graddau ar gyfer dyfarniadau dwbwl yn cael eu hadrodd ar dystysgrifau yn ddiweddarach eleni.

5.26. Bydd perfformiad dysgwyr sy'n sefyll TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) mewn bioleg, cemeg a ffiseg yn cael ei adrodd ar wahân ar eu trawsgrifiadau gan ddefnyddio graddau *A** i *G*.

5.27. Rydym yn cadw'r model graddio *A** i *G* oherwydd bod ein hymgysylltiad wedi nodi dewis clir ar gyfer y dull hwn. Mae'n gyfarwydd ac yn cael ei ddeall yn dda gan randdeiliaid sy'n gwneud y graddau'n syml i'w dehongli a'u defnyddio.

[4] Amod E7 – Cyfanswm Amser Cymwysterau

5.28. Mae'r raddfa raddio hon hefyd yn gwahaniaethu'n briodol ar draws yr ystod cyrhaeddiad tra'n cynnal lefelau digonol o gywirdeb a dibynadwyedd yn y graddau a ddyfarnwyd. Yn syml, mae cynyddu nifer y graddau sydd ar gael yn lleihau'r cywirdeb a'r dibynadwyedd y gellir pennu'r graddau hynny â hwy. Felly, mae cadw'r model *A** i *G* yn cefnogi ein nod cyffredinol ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd i ddarparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad dysgwyr mewn pwnc.

5.29. Mae cymwysterau TGAU sydd wedi'u dylunio ar gyfer dysgwyr mewn awdurdodaethau eraill yn defnyddio graddfeydd graddio gwahanol. Bydd cadw'r graddfeydd graddio *A** i *G* yn helpu i ddynodi bod y rhain yn gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru pwrpasol.

5.30. Fe wnaethom archwilio amrywiaeth o opsiynau graddio eraill fel rhan o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys yr opsiwn o fabwysiadu'r raddfa raddio 9-1 a ddefnyddir yn Lloegr. Fe wnaethom hefyd archwilio dichonoldeb a dymunoldeb mabwysiadu graddfa raddio fwy cul i archwilio a allai llai o raddau helpu i wella cywirdeb cyffredinol a dibynadwyedd canlyniadau TGAU.

5.31. Cadarnhaodd ein gwaith ymgysylltu helaeth â chynrychiolwyr o addysg bellach ac uwch na fyddai cadw graddau *A** i *G* yn achosi unrhyw anawsterau wrth wneud penderfyniadau derbyn gan fod hon yn system sefydledig a dealladwy iawn. Ni nododd colegau a phrifysgolion eu bod yn wynebu unrhyw anawsterau wrth gymharu cyrhaeddiad dysgwyr o Gymru sy'n cyflawni graddau *A** i *G* gyda dysgwyr o Loegr sydd wedi cyflawni graddau TGAU 9-1.

5.32. Ni wnaeth ein gwaith ymgysylltu ganfod unrhyw alw nac awydd sylweddol ymhlith defnyddwyr cymwysterau am leihau nifer y graddau TGAU oedd ar gael. Ond fe wnaethom nodi rhai canlyniadau anfwriadol posibl a allai godi pe baem yn gwneud hynny.[5]

5.33. O fewn y raddfa *A** i *G*, rydym yn gwybod bod graddau *A** i *C* yn cael eu hystyried yn gyffredin fel 'pas Lefel 2', a graddau *D* i *G* fel cadarnhad o gyflawniad ar Lefel 1. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod yr holl raddau TGAU sydd ar gael yn cynrychioli cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus.

[5] Ymchwil gyda Cholegau Addysg Bellach ar y Raddfa Graddau TGAU | Cymwysterau Cymru

Cadarnhaodd ein gwaith i archwilio modelau graddio amgen, fod rhanddeiliaid yn deall hyn.

5.34. Yn ein hymgynghoriad diweddar ar y *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16*, cynigiwyd cyflwyno cyfres newydd o gymwysterau Sylfaen. Fe wnaethom gynnig y byddai'r cymwysterau hyblyg ac unedol hyn yn cysylltu'n agos â chwe maes y Cwricwlwm. Er mwyn galluogi ac annog dysgwyr i wneud cymaint o gynnydd â phosibl, byddai'r cymwysterau hyn yn cydnabod cyrhaeddiad ar Lefel Mynediad a Lefel 1. Byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu dylunio ar gyfer dysgwyr nad ydynt eto'n barod neu'n gallu cael mynediad at TGAU. Gallent hefyd gynnig dewis ystyrlon i'r dysgwyr hynny sy'n debygol o ennill graddau TGAU isel iawn mewn pwnc neu faes penodol o'r Cwricwlwm. Er y gall rhai dysgwyr gael eu cymell gan y posibilrwydd o ennill cymhwyster TGAU, efallai y byddai'n well gan eraill astudio cymhwyster mwy hyblyg ac unedol ar Lefel 1 i helpu i fagu eu hyder a chyfnerthu eu dysgu wrth iddynt fynd ymlaen.

Perthynas â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

5.35. Mae'r Cwricwlwm wedi bod wrth wraidd ein gwaith i gyd-greu dyluniad y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

5.36. Ein nod yw sicrhau bod dysgwyr yn cael y gorau o'u profiadau o astudio ar gyfer cymwysterau. Wrth fynd ar drywydd y nod hwn, rydym yn cydnabod, er bod cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yn bwysig, na allant, ac ni ddylent, gynrychioli'r ystod lawn o ddysgu a phrofiadau a enillir gan ddysgwyr wrth iddynt ddilyn y Cwricwlwm.

5.37. Bydd cyflawni ein nod yn gofyn am ymdrech ar y cyd. Mae datblygu cymwysterau yn broses helaeth sy'n cynnwys llawer o bartneriaid a chyfranwyr. Nod ein gofynion a'n dull gweithredu, fel y nodir isod, yw sicrhau bod uchelgais a phwrpas y Cwricwlwm yn cael ei adlewyrchu'n llwyddiannus wrth ddylunio cymwysterau, ac yn bwysicaf oll yn yr addysgu a'r dysgu a brofir gan ddysgwyr wrth iddynt weithio tuag at eu cyflawni.

5.38. Rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i gymwysterau TGAU newydd gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ymwneud â'r Cwricwlwm ac ystyried y themâu trawsgwricwlaidd canlynol:

- addysg cydberthynas a rhywioldeb
- hawliau dynol

- amrywiaeth
- addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
- cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- crefydd, gwerthoedd a moeseg

5.39. Rhaid i gymwysterau TGAU newydd hefyd gael eu dylunio a'u datblygu i gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y Cwricwlwm. Y sgiliau cyfannol yw:

- creadigrwydd ac arloesedd
- meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- effeithiolrwydd personol
- cynllunio a threfnu

5.40. Gan adlewyrchu ein hymrwymiad i les cenedlaethau'r dyfodol, mae angen i'r cymwysterau TGAU newydd hefyd gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'r thema cynaliadwyedd.

5.41. Adlewyrchir y gofynion a amlinellir uchod yn y meini prawf cymeradwyo ar lefel cyfres a lefel pwnc ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd.

5.42. Mae'r *Meini Prawf Cymeradwyo ar Lefel Cymhwyster TGAU* yn nodi bod yn rhaid i gynnwys pwnc pob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru newydd:

- ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm

5.43. Wrth gyflwyno cymwysterau drafft i'w cymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu dogfen resymegol ategol. Yn ei ddogfen resymeg, rhaid i'r corff dyfarnu egluro:

- sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu amrywiaeth cynrychioliadau, safbwyntiau, themâu a chyfraniadau, gan gynnwys rhai grwpiau ac unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

5.44. Wrth wneud hynny, rhaid i'r corff dyfarnu egluro:

- sut mae wedi ystyried y defnydd o iaith a/neu derminoleg
- sut mae wedi gofyn am ac ystyried barn grwpiau amrywiol o bobl, gan gynnwys safbwyntiau a chyfraniadau cymunedau, grwpiau ac unigolion ethnig leiafrifol

5.45. Yn ei resymeg gefnogol, rhaid i'r corff dyfarnu hefyd esbonio sut mae wedi ystyried y themâu trawsgwricwlaidd canlynol a, lle bo hynny'n briodol, sut mae wedi adlewyrchu'r rhain ym mhob cymhwyster:

- cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol (gan gynnwys cynaliadwyedd a chynefin)
- addysg cydberthynas a rhywioldeb
- hawliau dynol
- ac addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

5.46. Yn ogystal, rhaid i'r corff dyfarnu egluro'r ffactorau y mae wedi'u hystyried wrth benderfynu a yw wedi cynnwys cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm, y tu hwnt i'r rhai a bennir yn y meini prawf cymeradwyo perthnasol.

5.47. Er mwyn cefnogi'r dull hwn, rydym wedi cyhoeddi Datganiad Polisi ar Gymhwyso themâu trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru mewn cymwysterau 14-16 Gwneud-i-Gymru.

Strwythurau cymwysterau

5.48. At ei gilydd, mae'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn cynnwys cymysgedd o strwythurau asesu llinol ac unedol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull 'fesul pwnc' a gymerwyd gennym i gyd-greu'r gofynion dylunio ar gyfer pob pwnc TGAU.

5.49. Mae strwythur llinol yn golygu bod yr holl asesiadau'n cael eu marcio a'u graddio ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau unedau asesu di-arholiad yn gynharach yn y cwrs ond rhaid eu cyflwyno i'w marcio a'u graddio ar ddiwedd y cwrs. Gall dysgwyr sy'n ailsefyll TGAU llinol barhau â'r marciau a gawsant ar gyfer unedau asesu di-arholiad o'r tro cyntaf iddynt geisio'r cymhwyster.

5.50. Mae strwythur unedol (y cyfeirir ato weithiau fel 'modiwlaidd') yn golygu bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân. Mae dysgwyr yn derbyn gradd ar gyfer pob uned y maent yn ei chwblhau. Mae hyn fel arfer yn golygu bod dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhai unedau cyn diwedd y cwrs. Ar gyfer cymwysterau TGAU unedol, mae angen cynnal o leiaf 40% o'r asesiad ar ddiwedd y cwrs. Mae hyn yn sicrhau bod graddau cyffredinol dysgwr yn adlewyrchu'n briodol y wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u hennill erbyn diwedd y cwrs. Mae sefyll uned yn gynnar yn golygu bod gan ysgolion a

dysgwyr yr opsiwn, lle bo angen, i ailsefyll yr uned honno cyn cwblhau'r cymhwyster - dim ond unwaith y gallant wneud hyn ar gyfer unrhyw uned.

5.51. Wrth benderfynu ar ddull cymysg, fe wnaethom feddwl yn ofalus a ddylai strwythur asesu'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd fod yn gyffredin ar draws pob pwnc. Gofynnom i bob gweithgor lefel pwnc edrych ar fanteision ac anfanteision cymharol mabwysiadu naill ai strwythur llinol neu unedol. Canfuom fod achos clir dros gymryd agwedd wahanol ar draws gwahanol bynciau.

5.52. Gwyddom o'n gwaith gyda rhanddeiliaid, a'r ymatebion i'n hymgynghoriad, fod llawer o wahanol safbwyntiau ar rinweddau cymharol strwythurau cymwysterau gwahanol.

5.53. Mae ymchwil yn dangos nad yw p'un a yw cymhwyster yn llinol neu'n unedol ai peidio ynddo'i hun yn effeithio ar lefel gyffredinol her y cymhwyster.[6] Mewn geiriau eraill, nid yw cymwysterau sy'n unedol yn eu hanfod yn haws trwy eu dyluniad na chymwysterau llinol – mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd.

5.54. Nod allweddol sydd wedi llunio ein dull gweithredu yw sicrhau bod cyfanswm yr asesiad ar draws y cwrs ac ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn hydrin, yn gymesur ac yn deg i bob dysgwr. Mae cyflawni'r nod hwn yn gofyn am gydbwyso gwahanol ffactorau'n ofalus. Er enghraifft, er y gall dull unedol ganiatáu ar gyfer mwy o asesiadau yn ystod y cwrs, rhaid i ddyluniad y cymhwyster hefyd roi cyfle teg i bob dysgwr ddangos maint llawn yr hyn y maent wedi'i ddysgu erbyn diwedd y cwrs. Rhaid i ddyluniad cymhwyster hefyd warchod rhag y risg o orasesu. Os bydd dysgwyr yn cymryd pob un neu'r rhan fwyaf o unedau mewn cymhwyster ddwywaith, byddai'r amser sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu yn cael ei leihau'n sylweddol, a byddai'r baich asesu cyffredinol yn anghymesur ac yn anymarferol i ddysgwyr ac ysgolion fel ei gilydd.

5.55. Wrth benderfynu a fydd pwnc TGAU yn unedol neu'n llinol, fe wnaethom ystyried y ffactorau a ddisgrifir isod. Mae'r ystyriaethau cyffredin hyn wedi ein helpu i gytuno ar ddull cyffredinol sy'n gydlynol gan barchu'r gwahaniaethau rhwng pynciau unigol hefyd.

5.56. Fe wnaethom edrych ar natur y cynnwys i'w asesu o fewn y pwnc, yn benodol ar y cydbwysedd rhwng gwybodaeth a sgiliau. Pan asesir dysgwyr i ymestyn mwy

[6] Ofqual (2019) Examination Reform: Impact of Modular and Linear examinations on GCSE

ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys penodol, gall strwythur unedol fod yn fwy addas. Lle mae'r pwyslais yn fwy ar sgiliau, gall dull llinol fod yn fwy priodol, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfle â phosibl i ddatblygu a mireinio eu galluoedd.

5.57. Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, edrychodd ein gweithgorau a ellid rhannu'r cynnwys gofynnol yn synhwyrol yn unedau arwahanol, nad ydynt yn gorgyffwrdd. Lle nad yw hyn yn wir, mae perygl y gallai strwythur unedol arwain at orasesu a mwy o bwysau ar amser addysgu a dysgu os oes rhaid ailymweld â'r un cynnwys ar wahanol adegau yn ystod y cwrs.

5.58. Ffactor arall sy'n dylanwadu yw cydbwysedd yr arholiadau ac asesiadau di-arholiad. Mae achos cryfach o bosibl dros fabwysiadu dull unedol mewn pynciau gyda chyfran uwch o asesiadau yn seiliedig ar arholiadau, oherwydd gall helpu i leihau'r pwysau ar berfformiad ar ddiwedd y cwrs. Mewn pynciau gyda chyfran gymharol uchel o asesiadau di-arholiad, fe wnaethom ystyried a allai strwythur unedol arwain at ddysgwyr yn cymryd yr unig unedau â chanddynt arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10 ac yna'n cwblhau i bob pwrpas eu cymhwyster rhan o'r ffordd drwy Flwyddyn 11, ar ôl iddynt gwblhau eu holl unedau di-arholiad.

5.59. Ar gyfer pob pwnc, fe wnaethom ystyried fyddai disgwyl i ddysgwyr berfformio'n sylweddol waeth mewn unrhyw unedau asesu pe baent yn cael eu cymryd yn gynharach yn y cwrs. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir mewn pynciau sydd â chyfran uwch o gynnwys sy'n seiliedig ar sgiliau a chynnwys sy'n gorgyffwrdd, gyda chyfran uwch o asesiadau di-arholiad.

5.60. Gwnaethom hefyd ystyried a allai strwythur unedol effeithio'n negyddol ar y ffordd y caiff cymhwyster ei gyflwyno a'r profiad ohono i ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyried a fyddai strwythur unedol yn cynyddu'r risg o orasesu pe bai dysgwyr yn cael eu cofrestru'n rheolaidd ar gyfer unedau yn gynnar, cyn eu bod yn barod, i gael cyfle i ailsefyll yr unedau hynny cyn diwedd y cwrs.

5.61. Ystyriaeth arall oedd meddwl am sut y gallai'r cymhwyster weithredu pe bai tarfu ar drefniadau asesu ar draws y system - fel y gwelwyd yn ystod pandemig COVID-19. Fe wnaethom edrych a allai strwythur penodedig y cymhwyster ganiatáu i ddysgwr gael gradd os oedd amgylchiadau'n atal asesiad diwedd cwrs rhag mynd yn ei flaen.

5.62. Yn olaf, ar gyfer y pynciau hynny yr ydym yn creu cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl a sengl ynddynt, rydym wedi ystyried sut y gall dyluniad y ddau

gymhwyster cysylltiedig helpu i gefnogi dysgwyr i symud rhwng cyrsiau cyn cwblhau eu cymhwyster.

5.63. Mae'r table yn Atodiad 1 yn nodi pa bynciau TGAU newydd fydd yn unedol, a pha rai fydd yn llinol.

Cydbwysedd y dulliau asesu

5.64. Mae'r cydbwysedd a'r cyfuniad o ddulliau asesu a fydd yn ymddangos mewn TGAU Gwneud-i-Gymru yn amrywio ar draws pynciau.

5.65. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ofyn am farn ar y cynigion ar gyfer sut y dylid asesu pob pwnc TGAU. Fe wnaethom hefyd esbonio'r nifer o ffactorau gwahanol y mae'n rhaid eu cydbwyso yn erbyn ei gilydd wrth benderfynu beth fydd y cyfuniad cywir o asesu ar gyfer unrhyw bwnc penodol.

5.66. Fel yr eglurwyd yn yr ymgynghoriad, dyw un math o asesiad yn ei hanfod ddim yn well nag unrhyw fath arall; mae gan bob un ohonynt fanteision ac anfanteision y mae angen eu hystyried. Mae rhai mathau o asesu yn fwy addas nag eraill i fesur agweddau penodol ar bwnc. Er enghraifft, gall arholiadau ysgrifenedig fod yn ddull effeithiol a dibynadwy o asesu gwybodaeth a sgiliau o fewn TGAU Mathemateg a Rhifedd, ond byddai'n anaddas ar gyfer asesu sgiliau ymarferol mewn pwnc fel TGAU Celf a Dylunio.

5.67. Mae'r meini prawf cymeradwyo unigol ar lefel pwnc yn nodi'r gyfran ofynnol o asesiadau arholiad a di-arholiad a fydd yn ymddangos ym mhob cymhwyster TGAU.

5.68. Adlewyrchwyd y nifer o ffactorau gwahanol sydd wedi llunio ein penderfyniadau ar sut y dylid asesu pob cymhwyster TGAU yn yr adborth a gawsom i'r cynigion ymgynghori.

5.69. Ar gyfer pob pwnc, ein nod oedd pennu'r cydbwysedd mwyaf priodol o ddulliau asesu. Roedd y ffactorau a ystyriwyd yn cynnwys yr angen i sicrhau bod asesu yn ddilys ac yn ddibynadwy, yn briodol ac yn berthnasol i'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu mesur, ac nad yw'n peri risgiau anfwriadol i degwch a chywirdeb. Rydym wedi ystyried, er enghraifft, a ellir cyflawni'r cydbwysedd gofynnol a hefyd er gwaethaf pwysau a risgiau a berir gan y defnydd sy'n esblygu'n gyflym o ddeallusrwydd artiffisial i gynhyrchu ymatebion i ystod o dasgau gwahanol. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu esbonio sut y bydd ei drefniadau asesu ar gyfer pob cymhwyster yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn.

5.70. Rydym wedi edrych yn ofalus ar a allai'r cydbwysedd asesu sy'n ofynnol o fewn y meini prawf cymeradwyo arwain at gymwysterau sy'n gymesur ac yn hydrin i ysgolion ac i ddysgwyr. Mae meini prawf cymeradwyo yn nodi'r gofynion dylunio eang y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a'r asesiadau ar gyfer pob cymhwyster. Bydd dyluniad manwl cymwysterau unigol yn allweddol i sicrhau y bydd y cymwysterau hyn yn hydrin i ysgolion a dysgwyr, gan gydbwyso'r angen i asesiadau fod yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiddorol.

5.71. Ar gyfer pob pwnc, fe wnaethom ystyried a fydd y cydbwysedd asesu arfaethedig yn hydrin o ran y baich gweinyddol posibl ar ysgolion ac athrawon, a'i oblygiadau posibl ar yr amser sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Ar lefel cyfres, fe wnaethom edrych ar nifer a strwythur posibl yr asesiadau, yn seiliedig ar ragdybiaethau ar sut y gallai'r corff dyfarnu ddylunio ei gymwysterau, i ystyried yr effaith gronnol bosibl ar ysgolion wrth gyflwyno'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru, o ran eu hamserlen a'u hadnoddau.

5.72. Fe wnaethom hefyd edrych ar sut y gallai'r cydbwysedd gofynnol ac amseriad asesiadau effeithio ar ddysgwyr sy'n cymryd gwahanol gyfuniadau o gymwysterau TGAU a chymwysterau eraill, i wirio y byddai cyfanswm yr asesiad y maent yn debygol o'i wynebu yn gymesur ac yn gyraeddadwy.

5.73. Mae Atodiad 1yn nodi'r cydbwysedd gofynnol o asesu arholiad a di-arholiad gyfer pob TGAU Gwneud-i-Gymru.

Dylunio asesiadau

5.74. At ei gilydd, bydd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn cynnwys cymysgedd o ddulliau asesu gwahanol.

5.75. Bydd y mathau o arholiadau y bydd dysgwyr yn eu sefyll yn amrywio ar draws pynciau. Er enghraifft, o fewn TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu gynnwys arholiad yn seiliedig ar gyd-destun a fydd yn cael ei ryddhau fis o flaen llaw, er mwyn helpu dysgwyr i ymgyfarwyddo â'r cyd-destun penodol y bydd yr arholiad yn canolbwyntio arno. Mewn pynciau eraill, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu benderfynu a ddylid caniatáu i ddysgwyr gael copïau o waith gosod wrth sefyll arholiad.

5.76. Term sy'n disgrifio amrywiaeth eang o wahanol fathau o asesu yw asesiad di-arholiad (ADA). Gellir disgrifio unrhyw asesiad nad yw ar ffurf papur arholiad sy'n cael ei sefyll gan bob dysgwr ar yr un pryd fel asesiad di-arholiad.

5.77. Mewn rhai pynciau, bydd yr asesiadau di-arholiad yn canolbwyntio ar agweddau mwy ymarferol ar y pwnc na ellir eu hasesu'n ddilys drwy arholiad. Er enghraifft, mewn TGAU Cerddoriaeth, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu sgiliau perfformio trwy chwarae neu ganu detholiad o ddarnau cerddorol. Bydd TGAU Cyfrifiadureg yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu sgiliau codio i ddatblygu ateb i her a osodwyd gan y corff dyfarnu. Er bod y rhain yn cael eu disgrifio fel asesiadau di-arholiad, i lawer o ddysgwyr byddant yn teimlo fel arholiad oherwydd byddant yn cael eu hasesu wrth iddynt gyflawni tasg benodol ar adeg benodol.

5.78. Mae mathau eraill o asesiadau di-arholiad yn canolbwyntio ar allu dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau dros gyfnod mwy estynedig. Er enghraifft, mewn TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol bydd gofyn i ddysgwyr gynhyrchu portffolio o dystiolaeth a fydd yn seiliedig ar eu hymateb i aseiniad a osodwyd gan y corff dyfarnu. Bydd hefyd yn ofynnol i ddysgwyr gyflwyno cofnod myfyriol yn seiliedig ar y dull y maent wedi'i ddefnyddio i ddatblygu eu portffolio.

5.79. Bydd y rhan fwyaf o asesiadau di-arholiad yn seiliedig ar dasgau neu friffiau a osodir gan y corff dyfarnu. Lle mae asesiad di-arholiad yn cynnig cyfle i ysgolion gyd-destunoli briffiau a osodir gan y corff dyfarnu, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu arweiniad clir i ysgolion ar sut y dylid gwneud hyn.

5.80. Mae'r meini prawf cymeradwyo ar lefel pwnc yn nodi a fydd asesiadau di-arholiad yn cael eu marcio gan ysgolion a'u cymedroli gan y corff dyfarnu neu wedi'u marcio'n uniongyrchol gan y corff dyfarnu. Yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi cynyddu, lle bo hynny'n bosibl, y gyfran o asesiadau di-arholiad y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu eu marcio, er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon am yr effaith bosibl ar lwyth gwaith athrawon.

5.81. Pan fo gan ysgolion yr opsiwn o osod neu gyd-destunoli eu tasgau eu hunain, rhaid i'r corff dyfarnu egluro sut y bydd yn sicrhau bod tasgau a gymerir gan ddysgwyr yn briodol, yn hydrin ac yn gallu caniatáu mynediad i'r ystod lawn o farciau sydd ar gael.

5.82. Wrth nodi'r amodau y dylai dysgwyr gwblhau eu hasesiadau di-arholiad ynddynt, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu esbonio sut y bydd y gofynion arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng **dilysrwydd**, **ymgysylltiad**, **dibynadwyedd** a **hydrinedd**.

5.83. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r amodau lle y cynhelir asesiadau sicrhau, cyn belled ag y bo modd, mai gwaith eu hunain yw gwaith dysgwyr. Felly, mae'n rhaid iddynt geisio osgoi creu risg y bydd rhai dysgwyr yn ennill mantais annheg, er enghraifft drwy gael cymorth ychwanegol gartref, neu drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein, gan gynnwys rhaglenni deallusrwydd artiffisial. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i drefniadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad fod yn hydrin i ysgolion eu darparu ac yn hygyrch i bob dysgwr. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ystyried sut y bydd y trefniadau asesu ar gyfer pob tasg yn hydrin wrth sicrhau tegwch i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys gosod lefelau digonol o reolaeth i reoli'r risg y bydd rhai dysgwyr yn ennill mantais annheg dros eraill.

5.84. Ar gyfer pob asesiad di-arholiad, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu nodi'r rheolaethau a ddylai fod yn berthnasol i wahanol agweddau ar yr asesiad. Yn benodol, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu nodi'r amodau y dylai dysgwyr baratoi ar gyfer eu hasesiadau di-arholiad a'u cwblhau yddynt. Gallai hyn gynnwys pa ddeunyddiau ac adnoddau y gall dysgwyr gael mynediad iddynt wrth ymgymryd â'r dasg, lefel yr oruchwyliaeth, pa mor hir y gall dysgwyr ei dreulio yn cwblhau tasg, sawl gwaith y gall dysgwyr roi cynnig ar dasg, p'un a oes cyfnod penodol lle mae'n rhaid cynnal yr asesiad, neu uchafswm geiriau.

5.85. Bydd cyflwyno cyfran fwy ac amrywiaeth o asesiadau di-arholiad TGAU yn golygu, yn gyffredinol, y bydd dysgwyr yn gwneud mwy o dasgau asesu nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at fwy o lwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu i ysgolion. Er mwyn sicrhau hydrinedd, byddwn eisiau gweld bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i oblygiadau trefniadau arfaethedig yr asesiad di-arholiad ar gyfer adnoddau ysgolion a llwyth gwaith athrawon. Er enghraifft, wrth bennu amodau goruchwyliaeth, efallai y byddai'n ddefnyddiol nodi pa fath o oruchwyliaeth sydd ei hangen a phwy allai ddarparu hyn. Bydd eglurder ynghylch y math yma o fanylion yn helpu ysgolion i gynllunio eu hadnoddau yn effeithiol ac yn helpu i egluro sut y gall pob dysgwr gael mynediad i'r asesiad, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion ychwanegol a'r rhai sy'n sefyll cymwysterau fel ymgeiswyr preifat.

5.86. Rydym yn gwybod o'n hymchwil helaeth ar ddylunio a chyflwyno asesiadau di-arholiad o fewn y cymwysterau TGAU presennol, nad oes dull un maint i bawb sy'n gweithio ar draws pob pwnc. Yr allwedd i ddylunio llwyddiannus yw cael y manylion cywir yng nghyd-destun pob tasg asesu benodol.

Haenu

5.87. Fel rheol, bydd cymwysterau TGAU sy'n cael eu hasesu drwy arholiad yn ddi-haen. Mae hyn yn golygu y bydd pob dysgwr sy'n sefyll yr arholiad yn ateb yr un cwestiynau ac yn cael mynediad at yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster.

5.88. Fel eithriad i'r rheol hon, a lle mae rhesymau clir dros wneud hynny, bydd dau bwnc TGAU yn cael eu haenu. Y pynciau hyn yw TGAU Mathemateg a Rhifedd a TGAU Y Gwyddorau. Yn y pynciau hyn, bydd gan ddysgwyr y dewis o sefyll naill ai papurau haen sylfaen neu haen uwch.

5.89. Bydd y cwestiynau ar bob papur haenog yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas ag is-set o raddau TGAU. Bydd papurau haen uwch yn cynnwys cwestiynau wedi'u targedu at raddau *A** i *D*, bydd papurau haen sylfaen yn targedu graddau *C* i *G*. Yn y pynciau hyn, pennir anhawster cyffredinol papur arholiad yn bennaf gan ba mor heriol yw'r cwestiynau, yn hytrach na pha mor dda y gall dysgwr ateb y cwestiynau.

5.90. Rydym wedi osgoi haenu yn y rhan fwyaf o bynciau oherwydd bod haenu yn cyfyngu ar yr ystod o raddau y gall dysgwr gael mynediad atynt. Er enghraifft, mae haenu'n cyflwyno effeithiau nenfwd ar yr haen sylfaen (lle mae'r radd uchaf sydd ar gael wedi'i chapio ar radd *C*) ac effeithiau llawr ar yr haen uwch (lle mae dysgwyr nad ydynt yn cyflawni gradd *D* yn derbyn gradd annosbarthedig). Mae haenu hefyd yn creu'r risg bod dysgwyr yn cael eu cofrestru'n amhriodol ar gyfer yr haen anghywir.

5.91. Bydd TGAU Mathemateg a Rhifedd a TGAU Y Gwyddorau yn cael eu haenu oherwydd yn y pynciau hyn nid yw'n bosib i un set o arholiadau wahaniaethu ar draws yr ystod graddau lawn. Ni fyddai cwestiynau sy'n canolbwyntio ar y graddau uwch yn hygyrch i ddysgwyr sy'n gweithredu ar y graddau is ac ni fyddai cwestiynau sydd wedi'u hanelu at y graddau is yn gwahaniaethu ymhlith y dysgwyr gallu uwch. Pe bai'r cymwysterau hyn yn ddi-haen, byddai angen i'r papurau arholiad fod yn llawer hirach i gael digon o wybodaeth i ddyfarnu'r

graddau'n ddibynadwy. Felly, mae haenu yn helpu i leihau'r baich asesu yn y pynciau hyn.

Asesu digidol

5.92. Drwy'r ymgynghoriad, gofynnwyd am farn ar sut y gallai'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd wneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol. Roedd y cynigion yn awgrymu ffyrdd penodol y gellid adlewyrchu hyn wrth ddylunio pob pwnc unigol.

5.93. At ei gilydd, croesawodd llawer o'r ymatebwyr y nod o wneud mwy o ddefnydd a gwell defnydd o dechnoleg ddigidol a chytunwyd y gallai helpu i wneud cynnwys ac asesu yn fwy deniadol i ddysgwyr. Wrth gefnogi'r egwyddor, fodd bynnag, cododd llawer o ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch a oedd gan ysgolion yr adnoddau a'r gallu angenrheidiol i gefnogi newid sylweddol i asesiadau ar y sgrin. Mynegodd eraill bryderon ynghylch a allai dysgwyr nad oes ganddynt fynediad at ddyfeisiau y tu allan i'r ysgol fod dan anfantais oherwydd cynnydd sylweddol mewn asesu digidol.

5.94. Ar ôl myfyrio'n ofalus ar yr adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu mabwysiadu cynigion ar gyfer mwy o asesiadau digidol mewn rhai pynciau, ond nid pob un.

5.95. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y corff dyfarnu a darparwyr llwyfannau asesu ar y sgrin i archwilio sut y gellir cyflwyno mwy o asesiadau ar y sgrin i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar hyn o bryd. Er enghraifft, drwy ddefnyddio'r nifer cynyddol o ddyfeisiau digidol sydd ar gael mewn ysgolion a manteisio ar y ffaith bod gan bob dysgwr yng Nghymru gyfrif Hwb[7], sy'n gydnaws â holl systemau'r ysgol ac yn darparu mynediad i ystod eang o offer defnyddiol.

5.96. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r corff dyfarnu, darparwyr asesu digidol, a swyddogion arholiadau ysgolion a rheolwyr rhwydwaith i archwilio sut y gellir cyflwyno asesiadau ar y sgrin yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Gyda'n gilydd, fe wnaethom edrych ar ffyrdd o leihau'r risg i ddysgwyr os bydd ysgol yn dod ar

[7] Hwb yw platfform dysgu digidol Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau digidol dwyieithog i ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae mewngofnodi i Hwb yn rhoi mynediad i ddefnyddwyr at amrywiaeth o becynnau meddalwedd, adnoddau dysgu a gwybodaeth am y Cwricwlwm. Mae'n darparu mynediad at ddysgu proffesiynol digidol i athrawon, a dyma'r porth hefyd lle mae dysgwyr yn gwneud asesiadau wedi'u personoli.

draws problemau gyda'i rhwydwaith, cysylltedd â'r rhyngrwyd neu'r dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio pan fydd asesiad yn cael ei gynnal.

5.97. Wrth ystyried a ddylid cyflwyno gofyniad ar gyfer asesu digidol ac ar y sgrin, fe wnaethom ganolbwyntio ar ble y gallai'r math hwn o asesiad wella dilysrwydd yn yr asesiad. Fe wnaethom hefyd ystyried y goblygiadau o ran hydrinedd ar gyfer canolfannau, gan gynnwys cyfran y dysgwyr sy'n debygol o fod yn astudio cymhwyster penodol mewn ysgolion unigol.

5.98. Mewn pynciau fel cyfrifiadureg, a ffilm a chyfryngau digidol, mae'n gwneud synnwyr cynnwys asesiadau digidol oherwydd y cysylltiad cryf â'r cynnwys y bydd dysgwyr yn ei astudio.

5.99. Mewn ystod o bynciau, rydym wedi gofyn i'r uned arholiad gael ei hasesu ar y sgrin yn unig. Mewn pynciau fel cerddoriaeth a drama, bydd hyn yn caniatáu i bob dysgwr gael gafael ar ac ymateb i gynnwys sain a fideo digidol yn yr arholiad. Bydd dysgwyr yn gallu ymgysylltu'n unigol â chynnwys digidol, gan arwain at brofiadau asesu tecach a mwy deniadol. Gellir defnyddio cynnwys digidol hefyd mewn pynciau eraill, fel addysg gorfforol ac iechyd, lle canfuom y gallai'r mathau o gwestiynau sydd ar gael ar lwyfannau digidol hefyd gryfhau dilysrwydd yr asesiadau.

5.100. Ar gyfer cymwysterau TGAU ym maes dyniaethau'r Cwricwlwm, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu gyflwyno opsiwn i ddysgwyr sefyll arholiad ar y sgrin mewn o leiaf un uned o'r cymhwyster o fewn y pum mlynedd gyntaf ar ôl cyflwyno. Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau y gellir datblygu'r cymwysterau hyn a'u cyflwyno mewn pryd i gefnogi'r Cwricwlwm, wrth hefyd ganiatáu iddynt esblygu dros amser. Bydd yn rhoi sail glir i ysgolion ar gyfer cynllunio a buddsoddi yn eu capasiti digidol. Mae hefyd yn rhoi amser i archwilio a threialu dulliau digidol o asesu yn y pynciau hyn.

5.101. Mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, bydd dewis o asesiad papur neu ar y sgrin. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion drosglwyddo i asesiad ar y sgrin ar gyflymder sy'n gweithio iddyn nhw a'u dysgwyr. Mewn pynciau lle mae fersiynau digidol a phapur o'r un arholiad ar gael, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu sicrhau na fydd un fformat na'r llall yn rhoi mantais nac anfantais annheg i ddysgwyr.

Argaeledd ac amseru asesiadau

5.102. Rydym yn egluro isod y gofynion cyffredin ynghylch pryd y bydd asesiadau ar gyfer cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn cael eu cynnal.

5.103. Mae gofynion penodol ar gyfer pryd y bydd asesiadau ar gael ym mhob pwnc wedi'u nodi yn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc ar gyfer pob cymhwyster TGAU. Mae'r gofynion hyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys a yw'r cymhwyster yn llinol neu'n unedol, y cydbwysedd rhwng arholiadau ac asesiadau di-arholiad, ac a yw'r cymhwyster yn ddyfarniad sengl neu dwbl. Rydym yn esbonio pryd y bydd asesiadau ar gael a'n rhesymau dros hyn yn yr adroddiadau ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc.

5.104. Mewn cymwysterau llinol, bydd cyflwyno tasgau asesiadau di-arholiad yn gysylltiedig â chyfres arholiadau'r haf. Hynny yw, bydd gofyn i ysgolion gyflwyno asesiadau di-arholiad a gwblheir gan ddysgwyr a/neu farciau o fewn ffenestri cyflwyno a bennir gan y corff dyfarnu. Mae'n bwysig nodi, er y bydd y ffenestr ar gyfer pryd y mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth asesiadau di-arholiad wedi ei rhagnodi, mewn llawer o achosion bydd dal i fod gan ganolfannau hyblygrwydd o ran pryd y bydd dysgwyr yn sefyll eu hasesiadau.

5.105. Ar gyfer cymwysterau unedol (oni nodir yn wahanol o fewn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc) rhaid cynnal o leiaf 40% o'r asesiad (naill ai asesiad di-arholiad, arholiad neu gyfuniad o'r ddau) ar ddiwedd y cwrs. Bydd y gofyniad hwn yn dylanwadu ar benderfyniadau ysgol ynghylch y drefn y maent yn addysgu gwahanol unedau a phryd maent yn penderfynu cofrestru dysgwyr i gael eu hasesu.

5.106. Fel rheol, bydd asesiadau sy'n seiliedig ar arholiadau yn cael eu cynnal ar ddyddiadau penodol yng nghyfres arholiadau'r haf.

5.107. Ar gyfer y garfan gyntaf o ddysgwyr sy'n dilyn cymhwyster newydd, dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf Blwyddyn 11. Mae hyn yn golygu, mewn cymwysterau llinol, na fydd unedau arholiad ar gael i ddysgwyr tan haf Blwyddyn 11. Yn y blynyddoedd dilynol, bydd pob uned arholiad ar gael ym mhob cyfres haf ar gyfer cymwysterau llinol.

5.108. Ar gyfer y garfan gyntaf o ddysgwyr sy'n sefyll cymhwyster unedol, dim ond un uned arholiad fydd ar gael yn haf Blwyddyn 10. Mae hyn er mwyn helpu i sicrhau bod digon o ddysgwyr yn sefyll yr arholiad i fod yn hyderus o osod safonau a

ffiniau graddau priodol. Yn y blynyddoedd dilynol bydd yr holl unedau arholiad ar gael yng nghyfres yr haf.

5.109. Ar gyfer cymwysterau unedol, bydd cyfres arholiadau ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11, sy'n golygu y bydd cyfleoedd i gyflwyno asesiadau di-arholiad i ddysgwyr naill ai yn ystod haf Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11.

Safonau a chymaroldeb

5.110. Bydd safonau yn y set newydd o gymwysterau TGAU yn debyg yn fras i'r safonau yn y set bresennol o gymwysterau TGAU. Mae hyn yn golygu y bydd canlyniadau cenedlaethol cyffredinol yn gymharol debyg hefyd.

5.111. Rydym wedi datblygu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd i gefnogi'r nod hwn o sicrhau safonau a chanlyniadau cymharol debyg. Adlewyrchir hyn, er enghraifft, yn cydbwysedd gofynnol rhwng asesiadau drwy arholiad ac asesiadau di-arholiad. Byddwn yn dweud mwy am y dull manwl o ddyfarnu'r cymwysterau TGAU newydd a'r trefniadau i sicrhau canlyniadau eithaf tebyg fel rhan o'n gwaith i gefnogi cyflwyno'r cymwysterau hyn yn llwyddiannus.

5.112. Diogelu buddiannau dysgwyr a sicrhau tegwch yw'r prif resymau dros sicrhau bod y safonau a'r canlyniadau ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd yn weddol debyg i'r hyn ydynt ar hyn o bryd. Heb fynd ati i ddilyn y nod hwn, mae'n fwy na thebyg y byddai'r carfannau cyntaf i ddilyn y cymwysterau newydd o dan anfantais annheg o'i gymharu â dysgwyr y gorffennol a dysgwyr y dyfodol. Er enghraifft, bydd eu hathrawon yn llai cyfarwydd â'r cymwysterau newydd, ac ni fydd ganddynt fynediad at gynifer o adnoddau o'u cymharu â dysgwyr sy'n cymryd y cymwysterau sy'n gadael, ac i ddarpar ddysgwyr a fydd yn dilyn y cymwysterau newydd yn y blynyddoedd i ddod.

5.113. Mae anelu at safonau a chanlyniadau cymharol debyg yn golygu nad ydym yn disgwyl i ganlyniadau i fod yn sylweddol uwch nac yn is. Mae'r newidiadu i ddyluniad y cymwysterau, er enghraifft y cynnydd mewn asesiadau di-arholiad mewn llawer a strwythur unedol nifer o bynciau, yn golygu na fydd yn realistig nac yn ddymunol cael yr un safonau yn union yn y set newydd o gymwysterau TGAU â'r rhai presennol. Bu newidiadau i gynnwys y cymwysterau hefyd i adlewyrchu'r Cwricwlwm. Yn ogystal, bu newid yn yr ystod o bynciau a fydd yn effeithio ar broffil cyrhaeddiad y carfannau ar gyfer rhai pynciau.

5.114. Bydd sicrhau canlyniadau eithaf tebyg yn y set newydd o gymwysterau TGAU hefyd yn cefnogi cymaroldeb rhwng yr hen set a'r set newydd o gymwysterau TGAU ac yn helpu i gynnal cyfredoldeb a hygludedd y cymwysterau i ddysgwyr.

5.115. Rydym yn cyflwyno cymwysterau TGAU mewn meysydd pwnc newydd sbon fel astudiaethau cymdeithasol, ffilm a chyfryngau digidol, dawns, peirianneg ac Iaith Arwyddion Prydain. Yn y pynciau hyn, byddwn yn gweithio gyda'r corff dyfarnu i osod safonau priodol pan gaiff y cymwysterau hyn dyfarnu am y tro cyntaf.

5.116. Unwaith y bydd TGAU newydd yn cael ei sefydlu, byddwn yn mabwysiadu dull o gynnal safonau dros amser a fydd yn golygu y bydd unrhyw newidiadau cyffredinol ym mherfformiad dysgwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn canlyniadau cenedlaethol.

5.117. Yn ogystal â'n gwaith ar sicrhau cymaroldeb eang rhwng y cymwysterau TGAU presennol a'r rhai newydd, rydym hefyd yn ystyried cymaroldeb cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, a'r cymwysterau TGAU a gaiff eu hastudio mewn awdurdodaethau eraill. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol ar y mater hwn, gan gynnwys colegau a phrifysgolion, cyflogwyr a rheoleiddwyr cymwysterau eraill. Ein nod yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd er mwyn helpu i sicrhau bod cyflawniadau dysgwyr yn cael eu cydnabod yn llawn ac yn deg ledled y DU i gefnogi eu dilyniant yng Nghymru a thu hwnt.

6. TGAU Cymraeg, TGAU Saesneg, TGAU Mathemateg a Rhifedd, a TGAU Y Gwyddorau.

6.1. Y cynigion ymgynghori a gafodd y nifer fwyaf o ymatebion oedd TGAU Y Gwyddorau, TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Mathemateg a Rhifedd. Denodd TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg[8] nifer gymharol uchel o ymatebion hefyd.

6.2. Dyma hefyd y cynigion a greodd y gyfran uchaf o anghytundeb ymhlith ymatebwyr.

6.3. O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion ar gyfer Cymraeg, Saesneg a'r gwyddorau, roedd y prif resymau a roddwyd dros anghytuno yn canolbwyntio ar ein penderfyniadau cynharach i gyfyngu ar ystod y cymwysterau TGAU sydd ar gael yn y pynciau hyn, yn hytrach nag ar y cynigion dylunio penodol ar gyfer y cymwysterau newydd hyn yr oeddem yn ceisio barn yn eu cylch.

6.4. Cododd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion ar gyfer Cymraeg, Saesneg, a mathemateg a rhifedd hefyd bryderon ynghylch maint arfaethedig y cymwysterau hyn – roeddem wedi cynnig y byddent yn cyfateb yn fras o ran maint i 1.5 TGAU.

6.5. O ystyried y pryderon a godwyd gan ymatebwyr am yr ystod o gymwysterau fyddai ar gael yn y pynciau hyn, penderfynom edrych eto i weld a ddylid creu cymwysterau ychwanegol i gyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd.

6.6. Buom yn gweithio'n helaeth gyda llawer o wahanol gyfranwyr i nodi a gwerthuso gwahanol opsiynau. Rydym yn ddiolchgar i bawb a helpodd i gefnogi'r gwaith pellach hwn. Ymhlith y rhai a gyfrannodd at y gwaith hwn oedd:

- ein Grŵp Cynghori i Ddysgwyr
- ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid *Cymwys ar gyfer y dyfodol*
- ein Grŵp Cyfeirio Ysgolion a Cholegau
- ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cymraeg

[8]Bydd TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn cael ei ddylunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn gallu sefyll y cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd newydd, TGAU dyfarniad sengl rydym wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar wahân ar ei gyfer.

- ein Grŵp Ymgysylltu Addysg Uwch
- cymdeithasau dysgedig ar gyfer y gwyddorau
- colegau a phrifysgolion o bob rhan o Gymru a'r DU
- ein gweithgorau lefel pwnc ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a rhifedd, a'r gwyddorau

6.7. Isod, rydym yn crynhoi'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud ar yr ystod o gymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru a fydd ar gael yn y pynciau hyn.

6.8. Gallwch ddarllen esboniad manylach o'r penderfyniadau hyn a chrynodeb cynhwysfawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i bob un o'r cynigion hyn yn yr adroddiad sy'n cyd-fynd â deilliannau'r ymgynghoriad fesul pwnc.

6.9. Bydd yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael yn y pynciau hyn yn:

- cefnogi ysgolion i gynllunio a chyflwyno eu cwricwla yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm
- sicrhau mwy o gysondeb a chydlyniaeth o ran maint ar draws yr ystod newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru
- rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ysgolion fodloni anghenion eu dysgwyr

6.10. Wrth roi'r penderfyniadau hyn ar waith, byddwn yn parhau i weithio gyda:

- Llywodraeth Cymru i sicrhau cyngor ac arweiniad clir i ysgolion a dysgwyr i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles gorau dysgwyr
- colegau a phrifysgolion i sicrhau eu bod yn deall y newidiadau hyn ac yn eu hadlewyrchu yn eu gofynion a'u prosesau derbyn
- y corff dyfarnu, Llywodraeth Cymru a cholegau i sicrhau bod y cymwysterau hyn yn hydrin i ddysgwyr ôl-16

6.11. Gallwch ddarllen mwy am y rhesymau dros ein penderfyniadau a'r farn a fynegwyd ar y newid arfaethedig yn yr adroddiad cysylltiedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro'r gofynion dylunio rydym wedi'u gosod ar gyfer pob un o'r cymwysterau hyn.

Cymraeg a Saesneg

6.12. Buom yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth integredig newydd a TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth integredig newydd.

Cynigiom y byddai'r naill a'r llal o'r cymwysterau hyn yn cyfateb yn fras o ran maint i 1.5 TGAU.

6.13. Rydym wedi penderfynu y bydd y cymwysterau hyn bellach yn cael eu datblygu a'u dyfarnu fel cymwysterau TGAU dyfarniad dwbwl. Ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU dyfarniad dwbwl newydd hyn, byddwn hefyd yn creu dau gymhwyster TGAU dyfarniad sengl newydd.

6.14. Mae'r penderfyniadau hyn yn golygu y bydd y cymwysterau TGAU integredig canlynol ar gael yn y pynciau hyn:

- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg ***Dyfarniad Dwbl***
- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg ***Dyfarniad Dwbl***
- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg ***Dyfarniad Sengl***
- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg ***Dyfarniad Sengl***

6.15. Mae'r penderfyniadau hyn yn cyd-fynd â chanllawiau'r Cwricwlwm yn y maes hwn, gan roi'r cyfle i bob dysgwr astudio a dilyn cymwysterau sy'n trin iaith a llenyddiaeth mewn modd cyfannol. Maent yn osgoi dryswch ynghylch gwerth gradd yn seiliedig ar gymhwystrer maint 1.5 TGAU ac yn caniatáu i ddysgwyr ennill graddau sy'n adlewyrchu'n decach faint o gynnwys maent wedi'i astudio.

6.16. Gallai creu cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl mewn Cymraeg a Saesneg helpu ysgolion i ddarparu oriau addysgu tebyg i'r hyn a wnânt ar hyn o bryd ar gyfer y pynciau hyn, gan fynd i'r afael â phryderon am effaith llai o amser addysgu ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr yn y pynciau hyn. Mae'r cymhwyster gradd unigol yn cynnig llwybr amgen, mwy hygyrch i ddysgwyr a allai elwa o ganolbwyntio ar lai o gynnwys dros gyfnod y cwrs. Bydd sicrhau amser addysgu priodol hefyd yn cefnogi athrawon Cymraeg a Saesneg wrth iddynt addasu i ffordd fwy integredig o addysgu a dysgu.

6.17. Mae ein disgwyliadau o ran sut y caiff y cymwysterau TGAU newydd hyn eu cyflwyno mewn ysgolion fel a ganlyn:

- bydd cymwysterau dyfarniad dwbl a sengl yn cael eu darparu ar draws cwrs dwy flynedd
- dylid trin y cymhwyster dyfarniad dwbl fel y llwybr mwyaf cyffredin a mwyaf addas ar gyfer mwyafrif sylweddol o ddysgwyr
- gan adlewyrchu eu statws fel elfennau mandadol o'r Cwricwlwm, disgwyliwn y bydd pob dysgwr yn treulio nifer tebyg o oriau yn dysgu

Cymraeg a Saesneg ym Mlynyddoedd 10 ac 11, waeth pa gymwysterau y maent yn eu hastudio

- Mae'r cymwysterau dyfarniad sengl yn y pynciau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer y dysgwyr hynny byddai'n gallu cwblhau cymhwyster TGAU, ond byddai'n cael anhawster ymdopi gyda maint y cynnwys yn y cymhwyster dyfarniad dwbl
- bydd cymwysterau dyfarniad sengl yn cynnig opsiwn mwy hydrin i ddysgwyr ôl-16 sy'n ailsefyll eu TGAU i gyflawni eu gradd darged

Mathemateg a rhifedd

6.18. Buom yn ymgynghori ar gynig ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd integredig newydd. Cynigiom y byddai'r cymhwyster newydd hwn yn cyfateb yn fras o ran maint i 1.5 TGAU.

6.19. Rydym wedi penderfynu y bydd y cymhwyster newydd hwn nawr yn cael ei ddatblygu a'i ddyfarnu fel TGAU dyfarniad dwbwl.

6.20. Rydym wedi penderfynu **na fyddwn** yn creu TGAU dyfarniad sengl i gyd-fynd â'r cymhwyster dyfarniad dwbl newydd. Mae hyn oherwydd na fyddai TGAU dyfarniad sengl yn y pwnc hwn yn:

- ymdrin yn ddigonol â'r Cwricwlwm ar gyfer mathemateg a rhifedd
- debyg o ran her i'r cymhwyster dyfarniad dwbl
- cael ei weld neu ei werthfawrogi gan ddarparwyr dysgu a chyflogwyr fel rhywbeth sy'n cyfateb i'r TGAU dyfarniad dwbl (na'r TGAU 9-1 a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr yn Lloegr) ac felly ni fyddent yn bodloni gofynion mynediad ar gyfer ystod eang o gyfleoedd dysgu a chyflogaeth ôl-16
- galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i gymwysterau ôl-16 ar Lefel 3 – gan gynnwys UG a Safon Uwch Mathemateg

6.21. Bydd y TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) newydd yn helpu ysgolion i ddarparu oriau addysgu tebyg i'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer y pwnc hwn, gan fynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch y potensial i leihau amser addysgu a'r effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar sgiliau a hyfedredd mathemategol a rhifiadol dysgwyr.

6.22. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r corff dyfarnu, Llywodraeth Cymru a cholegau addysg bellach i gefnogi dysgwyr ôl-16 sydd am ailsefyll y TGAU dyfarniad dwbl newydd.

Y Gwyddorau

6.23. Yn 2021, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, fe benderfynon ni greu TGAU dyfarniad dwbl integredig yn y gwyddorau i ddisodli'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth.

6.24. Nododd ein hymgynghoriad ar ddyluniad arfaethedig y TGAU newydd hwn bryderon ynghylch y bwriad i greu TGAU cyffredin yn y gwyddorau. Felly penderfynom ailystyried a ddylid cyflwyno cymwysterau ychwanegol ochr yn ochr â'r TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) newydd. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys creu cymwysterau TGAU newydd ar wahân mewn bioleg, cemeg, a ffiseg, creu cymhwyster gwyddoniaeth ychwanegol ar lefel 2, a chreu TGAU dyfarniad sengl inegredig newydd.

6.25. Rydym wedi penderfynu parhau i ddatblygu TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) newydd fel y prif gymhwyster i'w sefyll gan fwyafrif sylweddol y dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru.

6.26. Ochr yn ochr â'r cymhwyster newydd hwn, rydym hefyd wedi penderfynu creu TGAU dyfarniad sengl newydd yn y gwyddorau. Bydd hyn yn cynnig llwybr amgen, mwy hygyrch i'r dysgwyr hynny a allai elwa o ganolbwyntio ar lai o gynnwys dros gyfnod y cwrs. Bydd y dyfarniad sengl newydd hwn yn disodli'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl) presennol, sy'n cael ei sefyll ar hyn o bryd gan tua 6% o ddysgwyr. Er y bydd y cymhwyster dyfarniad sengl newydd hwn yn cefnogi dilyniant i gyrsiau STEM ôl-16 ar Lefel 2 a Lefel 3, **ni chaiff** ei ddylunio i gefnogi dilyniant yn rhwydd i gymwysterau UG a Safon Uwch yn y gwyddorau.

6.27. Rydym bellach wedi cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster newydd TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl).

6.28. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'n gweithgor lefel pwnc a chyfranwyr eraill i gyd-greu'r gofynion dylunio ar gyfer TGAU dyfarniad sengl integredig newydd yn y gwyddorau. Byddwn yn cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster hwn yn hydref 2023. Ein nod yw i'r cymhwyster hwn fod ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, ochr yn ochr â'r TGAU dyfarniad dwbl. Byddwn yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer ei gyflwyno pan fyddwn yn cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo.

6.29. Rydym yn hyderus mai'r TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) fydd y llwybr cywir i'r rhan fwyaf o ddysgwyr am ei fod yn:

- cefnogi nod y Cwricwlwm o gyfuno astudio gwyddoniaeth a datblygu sgiliau ymholi gwyddonol dysgwyr, tra hefyd yn rhoi sylfaen gref iddynt ym mhob un o'r disgyblaethau
- cefnogi symud ymlaen yn rhwydd i addysg ôl-16 ac uwch, a chyflogaeth
- rhyddhau lle i ddysgwyr ac ysgolion astudio ystod ehangach o bynciau
- sicrhau mwy o degwch ar draws y cynnig cymwysterau TGAU gwyddoniaeth yng Nghymru
- cael gwared ar y canfyddiad bod cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân naill ai'n ofynnol, neu'n cael ei ffafrio, ar gyfer symud ymlaen i gyrsiau STEM mewn addysg bellach neu uwch
- symleiddio'r dewisiadau ar gyfer dysgwyr 14 oed a allai effeithio ar lwybrau gyrfa yn y dyfodol, a allai yn ei dro gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio STEM ôl-16.

6.30. Mae'r cynnwys arfaethedig ar gyfer y dyfarniad dwbl newydd wedi'i wreiddio yng nghanllawiau'r Cwricwlwm. Buom yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr pwnc i gymharu'r cynnwys ar gyfer y TGAU dyfarniad dwbl arfaethedig â'r cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân presennol, yn ogystal â'r cymwysterau UG a Safon Uwch presennol. Rydym yn hyderus y bydd y cymhwyster dyfarniad dwbl newydd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddianus i gyrsiau UG a Safon Uwch yn y gwyddorau.

6.31. Bydd y dyfarniad dwbl newydd yn galluogi perfformiad dysgwyr mewn bioleg, cemeg a ffiseg i gael ei is-adrodd. Bydd y canlyniadau hyn a is-adroddir yn seiliedig ar ganlyniadau lefel uned a chânt eu hadrodd ar adysgrifau dysgwyr gan ddefnyddio graddfa raddio *A** i *G*. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i nodi ble mae eu cryfderau ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol i golegau a phrifysgolion wrth wneud penderfyniadau derbyn mewn perthynas â chyrsiau STEM.

6.32. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r cymdeithasau dysgedig ar y newidiadau hyn. Maent yn cefnogi'n gryf y syniad o greu un llwybr trwy'r gwyddorau ar lefel TGAU gyda chymhwyster dyfarniad dwbl newydd a all ddarparu manteision y llwybr gwyddorau driphlyg (ar wahân) mewn ffordd fwy teg. Fodd bynnag, mae'r cymdeithasau dysgedig wedi gwneud hi'n glir nad ydynt yn cefnogi ein penderfyniad i greu TGAU dyfarniad sengl newydd ochr yn ochr â'r dyfarniad dwbl, gan eu bod yn pryderu y gallai hyn arwain at system

ddwy haen. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r farn hon, rydym yn parhau i fod yn hyderus bod y dyfarniad sengl newydd yn cynnig dewis pwysig i gyfran fach o ddysgwyr i astudio'r gwyddorau ar lefel TGAU a symud ymlaen yn llwyddiannus i ystod o lwybrau STEM ôl-16.

6.33. Rydym wedi siarad â nifer o brifysgolion, gan gynnwys sefydliadau Grŵp Russell, i drafod y pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch symud ymlaen i addysg uwch. Dywedwyd wrthym yn gyson nad oes unrhyw brifysgol yn gofyn am, nac yn ffafrio yn bennodol, naill ai'r cymhwyster TGAU gwyddoniaeth dyfarniad dwbl neu'r rhai sydd ar wahân. Roedd prifysgolion yn awyddus i egluro eu bod wedi arfer ystyried cymwysterau gwyddoniaeth dyfarniad dwbl ac ar wahân yn eu proses dderbyn a bod yn rhaid iddynt drin pob llwybr yn gyfartal oherwydd nid yw pob canolfan (yng Nghymru ac yn Lloegr) yn cynnig cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân.

6.34. Er mwyn archwilio'r berthynas rhwng dewisiadau gwyddoniaeth TGAU a dilyniant dysgwyr i gyrsiau gwyddoniaeth UG a'u canlyniadau, rydym wedi dadansoddi data ar ddewisiadau a chyrrhaeddiad dysgwyr o fewn y cymwysterau gwyddoniaeth TGAU ac UG. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael, canfuom fod cyfran debyg o ddysgwyr â graddau TGAU uchel wedi mynd ymlaen i ennill gradd A mewn pynciau gwyddoniaeth UG, p'un ai wnaethon nhw astudio'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl presennol, neu'r cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân. Gallwch ddarllen ein dadansoddiad llawn o ddata cyrhaeddiad a dilyniant gwyddoniaeth TGAU ac UG yma.

6.35. Rydym wedi cynnwys Llywodraeth Cymru yn agos yn y gwaith hwn. Maent wedi cadarnhau mai llwybr cyffredin drwy TGAU gwyddoniaeth ar gyfer y mwyafrif sylweddol o ddysgwyr fyddai'n cefnogi nodau cyffredinol y Cwricwlwm orau gan ei fod yn caniatáu ar gyfer integreiddio'r gwyddorau yn well ac yn creu lle i ddysgwyr ddewis astudio ystod ehangach a mwy cytbwys o bynciau.

7. Themâu cwmpasog a godwyd yn yr ymgynghoriad

7.1. Ar ôl dadansoddi ac ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn systematig, rydym wedi cynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o'r themâu allweddol a godwyd mewn ymatebion i'r cynigion yn gyffredinol. Mae'r adroddiad ar wahân hwn yn esbonio sut mae pob thema wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith ar ddiwygio cymwysterau TGAU. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar y themâu cwmpasog a godwyd yn yr ymgynghoriad yma.

7.2. Isod, rydym yn rhoi crynodeb lefel uchel o rai o'r prif themâu a godwyd yn yr ymgynghoriad ac yn esbonio ble a sut y mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ein penderfyniadau a'n gwaith.

Cysondeb â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

7.3. Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr farn gymysg ynghylch a fyddai dyluniad arfaethedig y cymwysterau yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm). Nododd rhai ymatebwyr fod y cynigion yn cyd-fynd yn fras â phedwar diben y Cwricwlwm a'u bod yn amlwg yn gysylltiedig â'r chwe maes dysgu a phrofiad. I'r gwrthwyneb, teimlai rhai y dylai'r cynigion ganolbwyntio'n fwy amlwg a chyson ar elfennau allweddol y Cwricwlwm. Er enghraifft, dylent gysylltu'n fwy penodol â'r 'pedwar diben' ac, mewn rhai cymwysterau, creu mwy o gysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd y Cwricwlwm.

7.4. Nododd rhai ymatebwyr fod y cynigion yn cynnwys sgiliau pwnc a'r sgiliau cyfannol sy'n rhan o'r pedwar diben (fel datrys problemau a chreadigrwydd), yn ogystal â'r themâu trawsgwricwlaidd. Teimlai eraill y dylai hyn fod yn fwy cyson ar draws yr holl gymwysterau.

Sut mae'r thema hon wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith

7.5. Ein prif ffocws wrth gyd-greu'r cynigion dylunio a'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y TGAU newydd yw sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm. Gallwch ddarllen mwy am sut rydym wedi cyflawni hyn ar gyfer cymwysterau unigol yn ein hadroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc.

7.6. Mae'n rhaid i bob TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru, ddarparu cyfleoedd lle bo'n briodol i ymgysylltu â'r themâu trawsgwricwlaidd a'u hystyried. Rydym hefyd wedi llunio datganiad polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu

ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd ym mhob cymhwyster 14-16 Gwneud-i-Gymru.

Hyblygrwydd a dewis

7.7. Teimlai rhai ymatebwyr fod y cynigion yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â chwricwla gwahanol ysgolion, ond nododd eraill y gallai hyblygrwydd o'r fath roi pwysau ar weithwyr addysg proffesiynol.

7.8. Roedd gan yr ymatebwyr farn gymysg ynghylch a fydd gan ddysgwyr ddigon o gymwysterau i ddewis ohonynt. Teimlai rhai y gallai cyfuno meysydd pwnc gyfyngu ar ddewis y dysgwr. Awgrymodd eraill y dylai cymwysterau presennol barhau i gael eu cynnig ochr yn ochr â'r cymwysterau newydd fel y gall ysgolion ddewis y cymwysterau mwyaf priodol ar gyfer eu dysgwyr.

Sut mae'r thema hon wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith

7.9. Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y cynigion ar gyfer y Cynnig Cymwysterau 14-16 Llawn a allai fod ar gael i ysgolion a dysgwyr 14-16 oed. Gwnaethom gynnig y bydd y cynnig cymwysterau 14-16 llawn yn cynnwys TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, ochr yn ochr ag ystod eang o gymwysterau eraill sy'n rhychwantu Lefel Mynediad i Lefel 2 o'r cymwysterau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

7.10. Fel yr eglurwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn, rydym wedi gwneud penderfyniadau pellach ar yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael mewn Cymraeg, Saesneg a'r gwyddorau i roi mwy o ddewis i ysgolion a dysgwyr.

7.11. Mae'r gofynion dylunio a nodir o fewn meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yn ei gwneud yn glir ble a sut y bydd gan ysgolion gyfleoedd i deilwra cynnwys ac asesu gyda pharamedrau clir i helpu i sicrhau tegwch a hydrineddd.

7.12. Mae ein hadroddiad llawn ar themâu cyffredinol yr ymgynghoriad yn esbonio pam na fydd yn bosibl parhau i gynnal y TGAU presennol ochr yn ochr â'r TGAU newydd.

Cynnwys y cymwysterau

7.13. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y cynnwys arfaethedig yn berthnasol i bob pwnc, gan gynnwys y sgiliau y byddai dysgwyr yn eu hennill. Dywedodd eraill nad oedd y cynnwys arfaethedig yn ddigon uchelgeisiol.

7.14. Roedd rhai'n meddwl bod gormod o gynnwys i'w asesu, tra bod eraill yn dweud y gallai cyfuno cymwysterau mewn rhai pynciau gulhau'r cwricwlwm.

7.15. Ystyriwyd bod y profiadau a amlinellwyd yn y cynigion yn rhai pwrpasol, ond dywedodd rhai na fyddai pob dysgwr yn elwa o'r profiadau hyn pe na baent yn cael eu hasesu.

7.16. Ar draws yr holl bynciau, roedd ymatebwyr yn cydnabod y nod i wneud y TGAU newydd yn fwy perthnasol, er y gallai fod angen cymorth ar ysgolion i wneud y cynnwys a'r profiadau yn berthnasol i'r "byd go iawn" mewn ffordd deg.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

7.17. Mae'r meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yn nodi'r paramedrau y bydd y corff dyfarnu'n eu defnyddio i ddatblygu cynnwys manylach a phenodol ar gyfer pob cymhwyster.

7.18. Mae'r meini prawf cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i bob TGAU greu cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau sy'n berthnasol i bob pwnc, yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm. Mae'r profiadau hyn yn cydnabod bod dysgwyr yn elwa mwy o'r Cwricwlwm na dim ond yr hyn y gellir ei asesu. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar y profiadau hyn. Rydym yn disgwyl i'r corff dyfarnu esbonio yn ei ganllawiau i athrawon sut y gellid ymgorffori'r profiadau hyn o fewn addysgu a dysgu.

Trefniadau asesu

7.19. Dywedodd ymatebwyr y byddai trefniadau asesu priodol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu profi'n ddigonol ac yn deg ar y wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u hennill. Ar y cyfan, roeddent o'r farn y byddai'r cyfuniad o ddulliau asesu yn y cynigion yn diwallu anghenion pob dysgwr ac y dylai adeiladu darlun eang o gyrhaeddiad a chynnydd.

Cydbwysedd rhwng arholiadau ac asesiadau di-arholiad

7.20. Nododd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn asesiadau di-arholiad nifer o fanteision. Dywedon nhw y byddai mwy o asesiadau di-arholiad yn mynd i'r afael â risgiau y teimlent sy'n gysylltiedig ag arholiadau, yn cynnig asesiad mwy dilys o sgiliau, ac yn decach ac yn fwy cydnaws â'r Cwricwlwm. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell o ran lleihau dibyniaeth ar arholiadau ffurfiol.

7.21. Dywedodd y rhai nad oeddent yn croesawu'r cynnydd arfaethedig mewn asesiadau di-arholiad eu bod yn cynyddu lefelau straen a'r baich asesu ar ddysgwyr ac athrawon (yn enwedig pan gânt eu marcio gan athrawon) ac yn lleihau amser addysgu (o ystyried yr angen i baratoi ar gyfer asesiadau di-arholiad a'u cwblhau). Dywedodd rhai y gallai asesiadau di-arholiad effeithio ar bynciau eraill os oes rhaid i ddysgwyr gwblhau tasgau asesu di-arholiad y tu allan i wersi a amserlennwyd. Dywedodd rhai hefyd y gallai cynyddu asesiadau di-arholiad effeithio'n negyddol ar ddysgwyr sy'n symud ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11, ac ar ymgeiswyr preifat oherwydd pryderon hygyrchedd a thegwch.

7.22. Roedd ymatebwyr a oedd yn ffafrio arholiadau yn credu bod arholiadau yn decach ac yn llai agored i ddylanwadau annymunol.

7.23. Awgrymodd rhai y byddai'n decach rhoi dewis i ddysgwyr, lle bo'n bosibl, o gael eu hasesu drwy arholiad neu drwy waith cwrs neu'r ddau. Awgrymodd rhai hefyd y dylid cynnal asesiad ar adeg pan fo dysgwyr yn barod i gael eu hasesu.

7.24. Rydym yn trafod yr egwyddorion a'r ystyriaethau a lywiodd ein penderfyniadau ar gydbwysedd asesu ar gyfer pob pwnc yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Haenu

7.25. Fel rheol, ni fydd y cymwysterau TGAU newydd yn haenog. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai dull di-haen godi dyheadau dysgwyr, gwella cymhelliant, a chryfhau eu hymgysylltiad â dysgu. Mae hefyd yn osgoi heriau sy'n ymwneud â dewis yr haen gywir ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, nododd eraill y gallai creu cymhwyster sydd â chynnwys sy'n darparu ar gyfer yr ystod gallu lawn fod yn heriol mewn rhai pynciau.

7.26. Rydym yn amlinellu ein penderfyniadau ar haenau asesu yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Pwyslais ar yr ardal leol

7.27. Dywedodd ymatebwyr y dylai cymwysterau TGAU newydd alluogi asesiad o gynnwys a chyd-destunau mwy lleol. Dywedodd rhai y byddai hyn yn anodd ei wneud mewn arholiad, tra nododd eraill yr heriau o ddefnyddio asesiadau di-arholiad i asesu cynnwys lleol (er enghraifft anhawster i sicrhau safon asesu gyffredin).

7.28. Mae'r meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yn nodi lle mae cyfleoedd i ymgorffori cyd-destunau lleol yn y cymwysterau. Mae'r dull yn amrywio yn ôl pwnc, gyda rhai pynciau a dulliau asesu yn benthyca eu hunain yn fwy parod i ymgorffori cyd-destunau lleol nag eraill.

7.29. Rydym yn trafod sut y caiff asesiadau TGAU eu dylunio yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Defnyddio technoleg ddigidol mewn asesiadau

7.30. Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn gadarnhaol ynghylch cynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol wrth asesu. Fodd bynnag, cododd llawer bryderon am yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion a dysgwyr. Trafodwyd hefyd yr angen i leihau a rheoli risgiau methiant rhwydwaith neu ddyfais yn ystod asesiad.

7.31. Rydym yn trafod sut rydym wedi gosod gofynion ar gyfer asesu digidol yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Cynnal safonau

7.32. Soniodd yr ymatebwyr am bwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd safon genedlaethol o gyrhaeddiad. Ystyriwyd bod angen cysondeb wrth ddyfarnu graddau asesiadau di-arholiad ledled Cymru i sicrhau bod yr un graddau yn adlewyrchu'r un lefel o gyrhaeddiad. Gofynnwyd am eglurder ynghylch a fyddai canlyniadau yn 2027 fwy neu lai yr un fath ag ar gyfer y gyfres bresennol o gymwysterau TGAU.

7.33. Awgrymodd rhai fod safonau cynnwys y TGAU arfaethedig yn ymddangos yn isel o'i gymharu â chymwysterau yn Lloegr. Credai eraill y byddai'r cynigion yn arwain at orchwyddiant yn y canlyniadau yng Nghymru a allai ddibrisio cyflawniadau dysgwyr a'u rhoi dan anfantais wrth wneud cais am le mewn prifysgol.

7.34. Dywedodd rhai y gallai'r dysgwyr cyntaf sy'n sefyll y TGAU newydd fod dan anfantais o'i gymharu â dysgwyr y dyfodol oherwydd y bydd athrawon yn llai profiadol wrth addysgu'r cyrsiau newydd. Gwnaed nifer o awgrymiadau i amddiffyn dysgwyr rhag y risg hon.

7.35. Rydym yn trafod ein diwsgwyliadau o ran safonau a chymaroldeb cymwysterau TGAU newydd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Hygyrchedd

7.36. Dywedodd rhai y bydd y dulliau a'r cynnwys asesu arfaethedig yn diwallu anghenion a diddordebau pob dysgwr, ac yn hygyrch i bob dysgwr. Roedd cyfleoedd i addasu'r cynnwys a'r newid i fwy o asesiadau di-arholiad yn cael eu gweld fel nodweddion a fyddai'n cefnogi hygyrchedd.

7.37. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r farn, yn gyffredinol, na fyddai'r gyfres o gymwysterau arfaethedig yn annog cyfle cyfartal ac na fyddai'n cefnogi anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) a disgyblion mewn unedau cyfeirio (UCD), a dysgwyr gallu is. Er enghraifft, teimlai rhai y gallai mwy o waith cwrs roi dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (EFSM), neu'r rhai sy'n absennol yn aml, dan anfantais. Dywedodd eraill na fydd y cymwysterau arfaethedig yn ymestyn ac yn herio dysgwyr gallu uwch.

7.38. Soniodd rhai y byddai sicrhau hygyrchedd yn anodd o ystyried yr ystod o wahanol ddewisiadau ac anghenion dysgwyr.

Sut mae'r thema hon wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith

7.39. Trwy gyd-greu rydym wedi gwneud penderfyniadau cytbwys ar y trefniadau asesu ar gyfer pob TGAU newydd.

7.40. Gwnaethom ystyried hygyrchedd yn ofalus wrth ddatblygu meini prawf cymeradwyo lefel pwnc ar gyfer pob cymhwyster. Yn fwy cyffredinol mae gennym ganllawiau *Mynediad teg drwy ddylunio* sefydledig sy'n cynghori cyrff dyfarnu ar sut i gynhyrchu asesiadau sydd mor hygyrch â phosibl. Bydd rhaid i'r corff dyfarnu roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn wrth ddatblygu'r cymwysterau TGAU newydd.

7.41. Bydd y cynnig llawn o gymwysterau 14-16 yn cynnwys ystod gynhwysfawr o gymwysterau o lefel mynediad i lefel 2 FfCChC, gan gynnwys TGAU. Bydd hyn yn golygu y gall ysgolion gynnig dewis o gymwysterau i'w dysgwyr sy'n addas iddyn nhw.

Cynnydd dysgwyr

7.42. Roedd barn gymysg ynghylch a fyddai'r cynigion yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i lwybrau ôl-16.

7.43. Teimlai rhai y byddai TGAU newydd – gan gynnwys y rhai mewn pynciau newydd – yn cefnogi dysgwyr sy'n symud ymlaen i astudio Safon Uwch mewn pynciau penodol.

7.44. Teimlai eraill y gallai cyfuno cymwysterau mewn rhai pynciau olygu bod dysgwyr yn gwneud llai o gynnydd oherwydd gostyngiad posibl mewn amser addysgu. Dywedodd rhai hefyd y byddai cyfuno cymwysterau yn lleihau nifer y cymwysterau a enillir gan ddysgwyr, a allai eu rhoi dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn rhannau eraill o'r DU wrth wneud cais am le mewn prifysgol.

7.45. Roedd cyfuno pynciau yn gymwysterau mwy hefyd yn cael ei ystyried yn her bosibl i ddysgwyr ôl-16 a cholegau addysg bellach.

7.46. Dywedodd rhai y gallai p'un ai yw cymhwyster yn unedol neu'n llinol effeithio ar gyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr.

Sut mae'r thema hon wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith

7.47. Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, rydym wedi penderfynu ehangu'r ystod o gymwysterau TGAU sydd ar gael mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y gwyddorau.

7.48. Ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd, byddwn yn gweithio gyda'r corff dyfarnu i sicrhau y gall dysgwyr a darparwyr ôl-16 elwa ar strwythur unedol newydd y cymhwyster.

7.49. Fel y nodwyd eisoes, bydd safonau a lefel yr her yn y gyfres newydd o gymwysterau TGAU yn gymharol debyg i'r rhai presennol a'r rhai a gymerir gan ddysgwyr mewn rhannau eraill o'r DU.

7.50. Byddwn yn parhau i weithio'n helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid ledled y DU i sicrhau bod cyflawniadau dysgwyr yng Nghymru yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u deall. Rydym yn sôn mwy am y gwaith hwn yn adran olaf yr adroddiad hwn.

Hydrinedd ac adnoddau

7.51. Ar y cyfan, teimlwyd y byddai'r cymwysterau'n hydrin. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at gynnydd mawr yn y llwyth gwaith, a allai effeithio ar les athrawon.

7.52. Roedd barn gymysg ar yr hyn fydd ei angen i ddarparu cymwysterau newydd. Teimlai rhai na fyddai "unrhyw wahaniaeth" yng ngallu canolfannau i gyflwyno'r

cynnig. Dywedodd eraill y byddai ysgolion yn gallu gwneud y newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cymwysterau newydd.

7.53. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai angen cymorth ar ysgolion a darparwyr a gwnaethant awgrymiadau ynghylch yr hyn y gallai fod ei angen. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyllid digonol i recriwtio a chadw athrawon, darlithwyr a staff cymorth
- dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, gan gynnwys hyfforddiant pwnc-benodol a hyfforddiant ar farcio a chymedroli asesiadau
- rhwydweithio a deialog broffesiynol barhaus i alluogi athrawon a darlithwyr i drafod syniadau a chreu adnoddau
- amser i baratoi ar gyfer y cymwysterau a'u rhoi ar waith, ac i ymdopi gyda'r cynnydd yn yr asesiadau di-arholiad
- canllawiau clir, cyn eu gweithredu, ar sut i gyflwyno'r cymwysterau a'r asesiadau
- deunyddiau enghreifftiol ar gyfer arholiadau ac asesiadau di-arholiad
- gofod priodol ar gyfer addysgu a dysgu, ac ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad
- offer ar gyfer cymwysterau sy'n ymwneud â thechnoleg ddigidol a mynediad at gyfleusterau allanol lle bo hyn yn berthnasol (e.e. stiwdio ddawns ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll TGAU Dawns)
- cynllun cyfathrebu clir i esbonio'r cymwysterau a'r asesiadau i randdeiliaid.

7.54. Yn adran olaf yr adroddiad hwn, rydym yn esbonio'r gwaith rydym yn ei wneud gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi cyflwyno cymwysterau TGAU newydd yn llwyddiannus.

8. Asesu effaith cymwysterau TGAU newydd

8.1. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd ein hasesiad effaith integredig mewn perthynas â'n cynigion dylunio ar gyfer dylunio cymwysterau TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig eraill.

8.2. Roedd ein hasesiad yn disgrifio cost ac effeithiau cyflawni posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad ar wahanol grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, ysgolion a cholegau, cyrff dyfarnu a sefydliadau addysg uwch. Roedd hefyd yn nodi ein barn am effeithiau posibl y cynigion mewn perthynas â grwpiau gwahanol, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac unrhyw effeithiau cronnol a nodwyd ar draws yr ystod o gymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru a chymwysterau eraill.

8.3. Roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys:

- maint y cymhwyster
- cynnydd mewn asesiadau di-arholiad ac amseriadau asesu
- parodrwydd canolfannau a rheoli newid
- dilyniant ôl-16 ac ailsefyll

8.4. Gwnaethom hefyd ystyried sut y gallai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol[9], yn ogystal â chyfrannu at fwriadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[10], a'n hamcanion ategol[11].

8.5. Gwnaethom nodi ac ystyried yr effeithiau hyn wrth inni ddatblygu cynigion yr ymgynghoriad a cheisio lleihau unrhyw faich ychwanegol cymaint â phosibl. Gwnaethom nodi'r effeithiau posibl hyn yn y ddogfen ymgynghori a cheisio barn arnynt.

8.6. Gwnaethom egluro y byddem yn defnyddio'r adborth o'r ymgynghoriad i barhau i ddiweddaru ein hasesiad effaith integredig ac y byddai'n llywio ein penderfyniadau terfynol ar y gofynion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig eraill.

[9] https://www.llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg
[10] https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
[11] https://qualifications.wales/media/biqpu0nz/wellbeing-future-generations-objectives-2018-e.pdf

8.7. Rydym wedi adolygu'r holl opsiynau gwahanol sydd ar gael inni, gan gynnwys edrych eto ar yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael mewn rhai pynciau. Fel rhan o'n hymrwymiad i gyd-greu cymwysterau newydd, gwnaethom rannu adborth yr ymgynghoriad gyda'n gweithgorau lefel pwnc. Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid eraill yn ystod cyfnod yr ôl-ymgynghoriad hwn.

8.8. Mae ein Hasesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru yn nodi effeithiau ychwanegol yr ydym wedi'u nodi fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau hynny sy'n ymwneud â'n penderfyniadau ar argaeledd a dyluniad cymwysterau TGAU newydd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Rhifedd a'r Gwyddorau.

8.9. Rydym wedi nodi'n flaenorol, er ein bod yn ymwybodol o'r angen i leihau baich ein cynigion, mae rhai effeithiau o ran cost a chyflawni yn anochel. Credwn fod y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng yr ystyriaethau amrywiol, a bod yr effeithiau'n gymesur â'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i gymwysterau gyd-fynd â'r Cwricwlwm, a chefnogi'r gwaith o'i weithredu.

8.10. I gael rhagor o fanylion am sut mae ein hasesiad o effeithiau posibl wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith, gweler ein hasesiad effaith integredig wedi'i ddiweddaru.

9. Y daith i 2025 a thu hwnt



9.1. Mae cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru yn gam sylweddol yn ein gwaith i gyd-greu'r cymwysterau sydd eu hangen i helpu dysgwyr i gael y gorau o'u profiad o'r Cwricwlwm newydd.

9.2. Wrth inni symud ymlaen at y cam nesaf o ddatblygu a chymeradwyo cymwysterau newydd, byddwn yn parhau i gydweithio ac ymgysylltu â phartneriaid yn y system ehangach i sicrhau bod ysgolion ac athrawon yn cael eu hysbysu, eu cefnogi a'u paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod pan gyflwynir y cymwysterau.

9.3. Gwyddom fod cyflwyno diwygiadau cymhwyster yn llwyddiannus yn gofyn am ddull system gyfan. Trwy ein gwaith i gyd-greu'r gofynion ar gyfer cymwysterau TGAU newydd rydym wedi cynnwys ystod eang o'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu, darparu a gwneud dewisiadau am y cymwysterau newydd y bydd ysgolion yn eu cynnig. Rydym wedi gwrando'n ofalus ar eu barn am yr hyn sydd ei angen i reoli maint y newid a ddaw yn sgil hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried

effeithiau'r diwygiadau hyn ar lefel pwnc unigol yn ogystal ag ar draws y gyfres gyffredinol o gymwysterau TGAU newydd.

9.4. Un sbardun allweddol ar gyfer y diwygiadau hyn fu sicrhau cysondeb rhwng cymwysterau a'r Cwricwlwm. Bydd effaith y newidiadau yn amrywio ar draws y gyfres. Ar gyfer rhai pynciau, megis celf a dylunio, mae graddau'r newid sydd ei angen i sicrhau aliniad yn gymharol fach, ond ar gyfer pynciau eraill, megis y Gymraeg a'r Saesneg, mae graddfa'r newid yn fwy. Mae pynciau eraill, fel dawns ac astudiaethau cymdeithasol yn cael eu cynnig am y tro cyntaf fel TGAU Gwneud-i-Gymru.

9.5. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cymwysterau newydd hyn yn gallu cyfateb i uchelgeisiau'r Cwricwlwm. Gyda'i gilydd, byddant yn cynnig:

- mwy o hyblygrwydd a dewis i alluogi ysgolion i ddylunio a chyflwyno eu cwricwlwm
- cynnwys wedi'i adnewyddu i gefnogi'r themâu trawsgwricwlaidd a ffocws ar y pedwar diben
- ystod ehangach o ddulliau asesu a fydd yn fwy perthnasol a diddorol i ddysgwyr
- mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i ddarparu asesiadau dilys, perthnasol a deniadol a chefnogi addysgu a dysgu

9.6. Gwyddom, er mwyn i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno a'u rheoli'n llwyddiannus, fod angen dull wedi'i gynllunio'n effeithiol o ddarparu'r adnoddau, dysgu proffesiynol a mewnbwn arbenigol y mae athrawon ac eraill wedi dweud wrthym y bydd eu hangen. Bydd gwybodaeth amserol a chlir yn hanfodol i helpu ysgolion i gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y cymwysterau a fydd yn cael eu cynnig, gan gynnwys recriwtio ac uwchsgilio staff a sicrhau bod offer a chyfleusterau yn eu lle.

9.7. Rydyn ni eisiau bod yn hyderus y bydd ysgolion yng Nghymru yn gallu dewis o'r ystod lawn o gymwysterau TGAU newydd a fwriedir i gefnogi'r Cwricwlwm. Rydyn ni hefyd am i'r cymhwyster a gynigir fod yn un hyfyw, cynaliadwy a sefydlog. Dyma pam yr ydym, am y tro cyntaf, wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru gynnig yr ystod lawn o bynciau TGAU. Fel prif ddarparwr TGAU yng Nghymru, mae CBAC wedi ymrwymo i'r gofyniad hwn. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda CBAC ar gyflwyno'r cymwysterau hyn yn amserol ac yn llwyddiannus.

9.8. Mae hwn yn gam pwysig wrth sefydlu a chyfnerthu arlwy a fydd yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn rhoi sicrwydd a sylfaen fwy cadarn ar gyfer cynllunio a sicrhau'r dysgu proffesiynol a'r adnoddau cywir i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a darparu'r cymwysterau newydd.

9.9. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am reoli'r newidiadau hyn i sicrhau bod anghenion pawb sy'n darparu ac yn cymryd cymwysterau yn cael eu diwallu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nodi a sicrhau'r canllawiau, y cymorth a'r adnoddau y bydd eu hangen er mwyn cyflwyno a darparu cymwysterau'n llwyddiannus, yn unol â'r Cwricwlwm newydd. Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru yn frwd yn y gwaith hwn i helpu i ddiwallu anghenion pawb yn y system, gan gynnwys mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

9.10. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod athrawon ac ysgolion yn cael y wybodaeth gywir am y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol ac effeithiol i gefnogi eu paratoadau a chynllunio tymor hwy. Yn hydref 2023 bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau pa gymorth fydd ar gael i ysgolion a dysgwyr i gefnogi'r newidiadau hyn.

Beth fydd yn digwydd nesaf – datblygu a chymeradwyo cymwysterau

9.11. Yn unol â'i ymrwymiad i gynnig y gyfres lawn o gymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru, bydd CBAC nawr yn dechrau ar ei waith i ddylunio a datblygu'r cymwysterau hyn i fodloni ein gofynion.

9.12. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio tuag at nod cyffredin o sicrhau bod cymwysterau TGAU newydd yn cael eu cymeradwyo am flwyddyn academaidd lawn cyn iddynt gael eu cyflwyno i'w haddysgu gyntaf.

9.13. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CBAC dros y misoedd nesaf i adeiladu ar ein dull cyd-greadigol a helpu i wneud yn siŵr bod rhanddeiliaid yn parhau i fod yn rhan o ddyluniad manwl cymwysterau ac asesiadau newydd. Wrth i CBAC weithio ar ddylunio manylion y cymwysterau newydd, bydd yn rhannu cynigion amlinellol i roi mwy o fanylion i ysgolion rhag-gynllunio eu darpariaeth.

9.14. Yng ngwanwyn 2024, bydd CBAC yn dechrau cyflwyno cymwysterau drafft i ni eu hadolygu. Byddwn ond yn cymeradwyo cymwysterau unwaith y byddwn yn cytuno eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y meini prawf cymeradwyo.

9.15. Unwaith y bydd cymhwyster wedi'i gymeradwyo, bydd CBAC yn cyhoeddi'r fanyleb derfynol a'r deunyddiau asesu enghreifftiol yn y flwyddyn baratoi cyn addysgu am y tro cyntaf. Ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd sy'n cael eu cyflwyno yn 2025, bydd manylebau cymwysterau'n cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Medi 2024. Bydd deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael erbyn Rhagfyr 2024.

9.16. Drwy gydol yr amser hwn, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru (ynghyd â CBAC ac eraill) i'w helpu i gytuno a sicrhau'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r adnoddau y bydd eu hangen i gefnogi ysgolion i gynllunio ar gyfer y cymwysterau newydd a'u darparu'n llwyddiannus ac yn unol â nodau ac arweiniad y Cwricwlwm. Gwyddom y bydd angen adnoddau gwahanol ar wahanol gamau wrth i'r cymwysterau newydd gael eu cyflwyno a'u gwreiddio. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i nodi a blaenoriaethu'r hyn y bydd ei angen yn gyntaf.

9.17. Fel rhan o'r broses gymeradwyo, mae'n ofynnol i'r corff dyfarnu gyflwyno manylebau cymhwyster a deunyddiau asesu enghreifftiol (SAMS) ar gyfer pob cymhwyster sy'n cael ei gymeradwyo. Yn unol â'n fframwaith rheoleiddio, bydd CBAC yn darparu canllaw i athrawon i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gefnogi a galluogi athrawon i gyflwyno'r cymwysterau. Bydd CBAC hefyd yn darparu dysgu proffesiynol a chymorth i alluogi athrawon i gyflwyno'r cymwysterau newydd.

Rheoli'r newidiadau o 2025 ymlaen

9.18. Er mwyn sicrhau ystod gwbl gynhwysol a dwyieithog o gymwysterau sy'n ysbrydoli ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, rydym am arfer mwy o reolaeth dros ba gymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 14-16 oed. Er mwyn gwneud hyn, fe wnaethom sefydlu set o egwyddorion arweiniol a fydd yn llywio sut rydym yn penderfynu pa gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ddylai fod yn gymwys ar gyfer arian cyhoeddus.

9.19. Dylai cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed:

- ymwneud â nodau a dibenion y Cwricwlwm newydd a'i gefnogi

- bod ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg
- cyfrannu at ystod gydlynol a chynhwysol o gymwysterau sy'n bodloni anghenion pob dysgwr

9.20. Unwaith y bydd y cymwysterau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno, nhw fydd yr unig gymwysterau TGAU a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael yng Nghymru yn y pynciau hyn. Ar gyfer pynciau eraill (fel daeareg a'r gyfraith) rydym yn ystyried a ellid cynnig TGAU 9-1 a gynlluniwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr fel cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, ac ar ba sail. Bydd ein hymagwedd yn cael ei llywio gan ein hegwyddorion arweiniol ar gyfer y cynnig cymwysterau 14-16. Byddwn yn cadarnhau'r sefyllfa ar gyfer y pynciau hyn erbyn diwedd 2023.

9.21. Gwyddom o ddiwygiadau blaenorol, wrth wneud diwygiadau ar raddfa fawr i gymwysterau, ei bod yn bwysig gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch pa mor gyflym y mae newid yn digwydd. Rydym wedi cytuno â Llywodraeth Cymru ar yr amserlen ar gyfer pryd y bydd y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ar gael:

9.22. Yn 2025, byddwn yn cyflwyno 20 TGAU Gwneud-i-Gymru newydd i'w haddysgu am y tro cyntaf. Bydd y cymwysterau TGAU gwbwl newydd hyn mewn pynciau sefydledig yn galluogi ac yn cefnogi ysgolion i ddylunio a gweithredu eu cwricwla newydd.

9.23. Yn 2026, byddwn yn cyflwyno 8 TGAU Gwneud-i-Gymru newydd arall, yn bennaf mewn pynciau nad oeddent yn cael eu cynnig yn flaenorol fel TGAU. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i ysgolion ddatblygu eu capasiti i gyflwyno'r pynciau TGAU newydd hyn, megis dawns ac astudiaethau cymdeithasol.[12]

9.24. Yn 2025 a 2026 bydd ysgolion yn dal i allu dewis o'r ystod eang o gymwysterau 14-16 (ac eithrio TGAU) sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

9.25. Mae'r Cwricwlwm wedi'i gynllunio i roi ymreolaeth i ysgolion ac i addasu eu hymagwedd dros amser. Mae'n iawn felly fod yr ystod o gymwysterau sydd ar gael yn parhau i esblygu. Rydym wedi ystyried yn ofalus sut y gellir cyflwyno'r cymwysterau hyn i sicrhau nad oes unrhyw anfantais i unrhyw garfan o

[12] Bydd fersiynau wedi'u diweddaru o ddau TGAU cymharol newydd (yr amgylchedd adeiledig a thechnoleg ddigidol) hefyd yn cael eu cyflwyno yn 2026.

ddysgwyr wrth i'r cymwysterau newydd hyn ddod ar gael, ac i alluogi ysgolion i ddatblygu eu gallu ar gyflymder priodol a hydrin.

9.26. O 2027, bydd yr ystod lawn o gymwysterau Gwneud-i- Gymru ar gael. Ar y pwynt hwn byddwn yn symleiddio'r dewis o gymwysterau sydd ar gael i'w gwneud yn glir sut mae'r cymwysterau 14-16 llawn a gynigir yn cefnogi'r Cwricwlwm ac i sicrhau bod yr holl gymwysterau 14-16 ar gael yn ddwyieithog.

9.27. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen mewn ffordd amserol ac effeithiol i gefnogi ysgolion i roi eu cynlluniau pontio ar waith a chefnogi eu penderfyniadau er mwyn i ddysgwyr wneud y mwyaf o'u profiad o'r Cwricwlwm wrth i'r system gymwysterau newydd gael ei chyflwyno a'i rheoli.

9.28. Unwaith y bydd y cymwysterau newydd yn eu lle, byddwn yn monitro'r modd y cânt eu cyflwyno ac yn gwerthuso i ba raddau y maent wedi cyflawni'r buddion a fwriadwyd. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith hwn yn cefnogi ac yn bwydo i mewn i'w gwerthusiad ehangach o'r Cwricwlwm.

9.29. Bydd rhagor o wybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl cyn 2025 a thu hwnt ar gael yr hydref hwn.

9.30. Mae'r tabl isod yn egluro pryd mae'r TGAU newydd yn cael eu cyflwyno mewn gwahanol bynciau, a'r ystod o gymwysterau a fydd ar gael i ysgolion yn 2025, 2026 a 2027.

Pryd fydd dysgwyr yn dechrau astudio'r cymwysterau diwygiedig?

Addysgu cyntaf o fis Medi 2025	**Addysgu cyntaf o fis Medi 2026**	**Addysgu cyntaf o fis Medi 2027**
TGAU newydd mewn: • Celf a Dylunio • Drama • Cerddoriaeth • Bwyd a Maeth • Daearyddiaeth • Hanes • Astudiaethau Crefyddol • Busnes • Saesneg Iaith a Llenyddiaeth: unigol a dwyradd • Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth: unigol a dwyradd • Cymraeg Craidd • Frangeg • Almaeneg • Sbaeneg • Mathemateg a Rhifedd: dwyradd • Y Gwyddorau: dwyradd • Cyfrifiadureg Cymhwyster lefel 2 newydd: • Cymraeg Craidd Ychwanegol	TGAU newydd mewn: • Y Gwyddorau: unigol • Dawns • Ffilm a Chyfryngau Digidol • Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant • Addysg Gorfforol ac Iechyd • Astudiaethau Cymdeithasol • Dylunio a Thechnoleg • Peirianneg Cymhwyster lefel 2 newydd: • Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol Cymwysterau wedi'u diweddaru yn: • Amgylchedd Adeiledig • Technoleg Ddigidol	• TGAU Iaith Arwyddion Prydain • Ystod o gymwysterau newydd ac wedi'u diweddaru sy'n gydlynol a chynhwysol ac sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
Pan gyflwynir cymwysterau newydd, byddant yn disodli'r cymwysterau presennol yn y pynciau hynny. Bydd cymwysterau eraill yn parhau i fod ar gael ochr yn ochr â'r TGAU newydd nes bod y cynnig cymhwyster llawn 14-16 yn cael ei gyflwyno		

10. Atodiad

Tabl Strwythur ac Asesiadau Cymwysterau fesul Pwnc

Cymhwyster TGAU	Llinol neu unedig	Cyfran yr arholiad	Cyfran yr ADA
Addysg Gorfforol ac Iechyd	Llinol	40%	60%
Amgylchedd Adeiledig	Unedol	35%	65%
Astudiaethau Crefyddol	Unedol	60%	40%
Astudiaethau Cymdeithasol	Unedol	60%	40%
Busnes	Unedol	60%	40%
Bwyd a Maeth	Llinol	40%	60%
Celf a Dylunio	Llinol	0%	100%
Cerddoriaeth	Llinol	35%	65%
Cyfrifiadureg	Unedol	100%	0%
Ffilm a Chyfryngau Digidol	Llinol	30%	70%
Cymraeg Craidd	Llinol	50%	50%
Daearyddiaeth	Unedol	60%	40%
Dawns	Llinol	30%	70%
Drama	Llinol	30%	70%
Dylunio a Thechnoleg	Llinol	30%	70%
Hanes	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dyfarniad Sengl)	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Sengl)	Unedol	60%	40%
Iaith Arwyddion Prydain	TBC	TBC	TBC
Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	Unedol	40%	60%
Ieithoedd Rhyngwladol (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg)	Llinol	50-55%	45-50%
Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	100%	0%
Peirianneg	Unedol	40% (20% ymarferol)	60%
Technoleg Ddigidol	Unedol	40%	60%
Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	90%	10%
Y Gwyddorau (Dyfarniad Sengl)	TBC	TBC	TBC
Cymwysterau nad ydynt yn TGAU			
Dyfarniad Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol	Unedol	50%	50%
Dyfarniad Lefel 1 Rhif, Mesur, Data	Llinol (profi pan yn barod)	100%	0%
Dyfarniad Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol	Unedol	100%	0%